Cyngor Sir Penfro

# Cynllun Datblygu Lleol

## Adroddiad Monitro Blynyddol – 4

## 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017

# Tudalen Gynnwys

Tudalen Gynnwys ..... 3

1 Cyflwyniad ..... 11

2. Gwybodaeth Gyd-destunol ..... 15

2 Crynodeb o Ganlyniadau Monitro'r CDLl ..... 32

4 Crynodeb o Ganlyniadau Monitro Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ..... 48

5 Adborth o Ddigwyddiadau Ymgynghori ..... 53

6. Casgliadau ac Argymhellion ..... 57

7. Atodiadau ..... 58

Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLl ..... 59

Atodiad 2 – Cynnydd tuag at ddarparu llwybrau trafnidiaeth a ddiogelwyd a gwelliannau) (GN.39) ..... 111

Atodiad 3 – Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ..... 126

Atodiad 4 – Dyraniadau lle mae angen Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ..... 142

Atodiad 5 – Dadansoddiad o Dai Wedi'u Cwblhau 2013-2017 yn ôl lleoliad ..... 145

# Crynodeb Gweithredol

i. Mabwysiadodd Cyngor Sir Penfro y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2013. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), bob blwyddyn, gyda mewnbwn gan Randdeiliaid, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Mae'r AMB yn seiliedig ar y targedau a'r trothwyon a nodir yn Atodiad 5 i'r Cynllun Datblygu Lleol – mae'r rhain yn asesu sut mae'r Cynllun yn gweithio ac a oes unrhyw feysydd sy'n achosi pryder y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach. Ar ôl pedair blynedd mae'n rhaid i'r Awdurdod adolygu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, ond ceir darpariaethau ar gyfer adolygiad rhannol interim o'r Cynllun os bydd meysydd polisi penodol yn gofyn am hyn. Cyrhaeddwyd y dyddiad pedair blynedd ar gyfer adolygu'r CDLl ar 28/02/17, tua diwedd blwyddyn 4 yr AMB. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod yn anffurfiol y gellid dechrau'r adolygiad yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017, ar ddechrau blwyddyn 5 yr AMB. Felly, mae'r Cynllun a fabwysiadwyd yn 2013 ar ddechrau'r broses adolygu.

ii. Hwn yw'r pedwerydd AMB sydd wedi cael ei baratoi ers i CDLl Cyngor Sir Penfro gael ei fabwysiadu. Mae'n gyfle pwysig i'r Cyngor asesu effaith y CDLl ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Mae'r ddogfen yn rhoi dadansoddiad manwl o'r ffordd y mae'r Cynllun yn gweithio, o'r cyd-destun strategol y mae'r Cynllun yn cyflawni oddi mewn iddo, ei berfformiad yn erbyn amcanion strategol i b'un a yw polisïau unigol, sydd â gofyniad monitro a nodwyd, yn cyflawni yn ôl y disgwyl. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, ond cyfeirir at newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd ar ôl y flwyddyn adrodd.

**Canfyddiadau Allweddol**

iii. Mae cynnydd da wedi parhau i gael ei wneud o ran cyflawni'r Cynllun yn 2016-2017. Adolygu'r Cynllun yw blaenoriaeth y tîm CDLl bellach, ynghyd â thasgau arolygu a monitro hanfodol. Dechreuwyd adolygu'r Cynllun yn gynnar ym mlwyddyn 5 yr AMB, ar adeg o gwtogi cyllidebol a llai o staff. Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) allweddol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Rhwymedigaethau Cynllunio (Medi 2016);
- Ynni Adnewyddadwy (Hydref 2016);
- Safleoedd Datblygu (diweddariad) (Rhagfyr 2016).

iv. Hefyd, gwnaed rhagor o waith ar Arfarniadau Cymeriad a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth (ACACau). Mabwysiadwyd ACACau newydd ar gyfer Abergwaun, Wdig a Thref Isaf Abergwaun ym mis Tachwedd 2016.

Ar y cyfan, mae'r fframwaith monitro yn dangos bod y Cynllun yn cyflawni'n dda:

- Mae nifer y cartrefi fforddiadwy a adeiladwyd ac a ganiatawyd yn cyflawni'r targedau a bennwyd. Mae nifer y cartrefi cyffredinol (marchnad gyffredinol a fforddiadwy) a adeiladwyd ac a ganiatawyd ychydig islaw'r targedau a bennwyd, ond islaw'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach.
- Mae canran y tai a gwblhawyd ar sail dyraniadau newydd gyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach (59% lle'r sbardun yw 60%). Mae hyn yn rhannol adlewyrchu oedi wrth gyflawni 3 Safle Tai strategol yn Slade Lane (Hwlffordd), Maesgwyn (Abergwaun) a Shoals Hook Lane (Hwlffordd). Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer dau o'r safleoedd hyn ond ni chyflawnwyd unrhyw beth eto.
- Mae gwaith monitro prisiau tai yn dangos nad oes angen addasu targedau cyfraniadau tai fforddiadwy.
- Mae gan yr Awdurdod 5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer Tai.
- Cyflawnir targedau monitro CDLl ar gyfer tir cyflogaeth at ei gilydd. Datblygwyd amrywiaeth o safleoedd ac adeiladau at ddibenion cyflogaeth ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae llawer o'r rhain wedi'u cyflwyno ar safleoedd wedi'u dyrannu, a ategwyd gan ganiatadau pellach ar hap-safleoedd a gafodd gydsyniad ers 2013.
- Bu cynnydd tuag at gyflawni'r dyraniadau cyflogaeth strategol yn raddol, fel y disgrifir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr Adroddiad hwn a chyrhaeddwyd trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach ar safle Cyflogaeth Strategol Trecŵn yn sgil yr oedi wrth ei gyflawni.
- Bu'r tri dyraniad defnydd cymysg o bolisi GN.7 yn llai llwyddiannus. Ni weithredwyd yr un ohonynt. Ar ddau o'r safleoedd hyn, cyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach.
- Awgryma dangosyddion manwerthu am y 4ydd blwyddyn yn olynol fod llawer o Ganol Trefi Sir Benfro yn ei chael hi'n anodd.
- Yn ystod blwyddyn 4 yr AMB, cydsyniwyd cynlluniau ynni adnewyddadwy pellach i raddau cymedrol iawn o gymharu â'r ychydig flynyddoedd diwethaf, yn sgil lleihad sylweddol mewn tariffau cyflenwi ar gyfer y prosiectau hyn. Dim ond 6.11 MW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy ychwanegol a gafodd ei ganiatáu ym mlwyddyn 4 yr AMB, o gymharu â 34.77 MW ym mlwyddyn 3, 68.6 MW ym mlwyddyn 2 a 108.4 MW ym mlwyddyn 1.
- Cafodd 1.11 ha arall o gapasiti gwastraff newydd ei ganiatáu, ar ddau safle, yn ystod blwyddyn 4 yr AMB.
- Ar gyfer mwynau, cydsyniwyd ymestyn yr ardal echdynnu yn Chwarel Lechi Fferm Penlan yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Mae lefelau da o adnodd craig

galed ar gael yn ardal gynllunio'r Cyngor, ond cyrhaeddwyd trothwy monitro mewn perthynas â chynhyrchu tywod a gro tiriogaethol. Erbyn hyn dim ond ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro y'u cynhyrchir yn Sir Benfro.

v. Mae gwaith monitro ar wahân o amcanion Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Arfarniadau Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos nad oes unrhyw faterion sylweddol y mae angen cymryd camau gweithredu yn eu cylch.

**Newid Cyd-destunol**

vi. Mae nifer o newidiadau sylweddol eraill wedi cael eu cyflwyno drwy ddeddfwriaeth, canllawiau a dogfennau eraill a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn adrodd:

- Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 bellach ar waith.
- Cafodd argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2016.
- Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gamau cynnar ei baratoi.
- Cafodd rhifyn newydd o Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 4 Llywodraeth Cymru ar Ddatblygiadau Manwerthu a Masnachol ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2016.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar amrywiaeth o ddogfennau sy'n gysylltiedig â chynllunio.
- Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar Asesiad Seilwaith Cenedlaethol.

vii. O ran yr ardal leol, mae Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau wedi datblygu cynnig sy'n gysylltiedig â datblygiad defnydd cymysg ym marina Aberdaugleddau (yr argymhellwyd ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015). Nid oedd cytundeb cyfreithiol cysylltiedig A.106 wedi'i lofnodi o hyd ar ddiwedd blwyddyn 4 yr AMB. Cafodd cynnig pellach ar gyfer pedair ystafell gwesty ar y dŵr gydsyniad ym mlwyddyn 4 yr AMB.

viii. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer Uned Gwres a Phŵer Cyfun ym Mhurfa Penfro Valero. Mae'r Datblygiad hwn o Arwyddocâd Cenedlaethol, a chaiff y cais ar ei gyfer ei bennu gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Disgwylir cais yn ystod blwyddyn 5 yr AMB.

ix. Yn un o safleoedd Tai mwy o faint y Cynllun ym Maesgwyn, Abergwaun, cafodd caniatâd amlinellol 07/1454/PA gymeradwyaeth amodol ar 17/10/11. Cynigiodd cais 14/0070/PA Adran 73 ymestyn yr amser i gyflwyno materion a gadwyd yn ôl ar y cais amlinellol cynharach. Cafodd hyn gymeradwyaeth amodol ar 19/08/16, ym mlwyddyn 4 yr AMB.

**Targedau Monitro – Trothwyon**

x. Mae gan ddangosyddion amrywiol yn y fframwaith monitro drothwyon cysylltiedig sydd wedi'u rhoi ar waith, gan ddynodi bod angen ymchwiliad pellach. Er nad yw unrhyw fater a nodwyd yn y bôn yn tanseilio Strategaeth y Cynllun, rhydd yr adolygiad o'r CDLl (sydd eisoes wedi dechrau) gyfle i adolygu'r polisïau a'r cynigion yr effeithiwyd arnynt gyda'r nod o oresgyn y problemau. Amlinellir y dangosyddion yr effeithiwyd arnynt isod:

- (Craidd) Faint o brif ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiateir yng Nghanol Trefi a fynegir fel canran o bob datblygiad mawr a ganiatawyd.
- Lefel yr arwynebedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN. 15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm).
- Newid defnyddiau A1 (nifer yr unedau a'u harwynebedd ar gyfer manwerthu cynradd) ffryntiadau – islaw'r targed yn Abergwaun, Arberth a Phenfro.
- Canran yr unedau gwag llawr gwaelod yng Nghanol Trefi lle mae 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) – Aberdaugleddau, Doc Penfro a Hwlffordd. (Mae cyfradd unedau gwag Hwlffordd yn uwch oherwydd cynllun ailddatblygu).
- Faint o agregau cynradd a dynnir o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y'i nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Y trothwy yw ymchwiliad pellach os bydd y banc tir yn gollwng o dan 12 mlynedd (craig galed) neu 9 mlynedd (tywod a gro).
- Nifer y safleoedd a lleiniau a gafodd ganiatâd ac a gwblhawyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr. Gwneir cynnydd o ran cyflawni hyn, ond mae islaw'r angen a nodwyd.
- (Craidd) Y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai (TAN 1) – mae 5 mlynedd o gyflenwad tir ar gael. Y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach yw os bydd y cyflenwad tir o dan 5.5 mlynedd a dyna yw'r achos.
- (Craidd) Faint o ddatblygiadau tai a gafodd ganiatâd ac a adeiladwyd ar safleoedd tai wedi'u dyrannu fel canran o gyfanswm y tai a ddyrannwyd ac fel canran o gyfanswm y datblygiadau tai a gafodd ganiatâd. Y trothwy yw os

bydd caniatadau ar safleoedd wedi'u dyrannu o dan 60% o'r cyfanswm ym mis Mawrth 2017 – cafodd 59% o ddyraniadau eu hadeiladu fel canran o'r cyfanswm o gwblhawyd felly cyrhaeddwyd y trothwy.

- Cynnydd tuag at gyflawni ar y safleoedd tai canlynol: a) Slade Lane (De), Hwlffordd, b) Slade Lane (Gogledd), Hwlffordd, c) Maesgwyn, Abergwaun, d) Shoals Hook Lane – trothwy wedi'i gyrraedd ar gyfer a) c) a d) gan nad yw'r gwaith datblygu wedi dechrau yn 2017, er y cafwyd caniatâd ar gyfer a) a c).

- (Craidd) Nifer yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad agored ychwanegol net a adeiladwyd (TAN 2). Cyrhaeddwyd y trothwy gan fod y nifer gyffredinol a gwblhawyd o dan 50% o'r targed yn 2017. Fodd bynnag, cyflawnwyd y targed tai fforddiadwy.

- Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd o fewn ardaloedd porthladdoedd a nodwyd (Blackbridge – Aberdaugleddau; Wdig – hen safle ffatri Dewhirst; ac Wdig – Parrog). Trothwy ar gyfer gweithredu pellach – 50% heb ganiatâd cynllunio wrth Adolygu'r Cynllun (2017) – fe'i cyrhaeddwyd oherwydd erbyn 31 Mawrth 2017 nid oedd unrhyw ganiatadau cyflogaeth cyfredol yn Blackbridge nac Wdig – Parrog ac roedd y rhai'n ymwneud â hen Ffatri Dewhirst (hefyd yn Wdig) ar gyfer defnydd heblaw am gyflogaeth.

- Cynnydd tuag at ddarparu safleoedd cyflogaeth strategol (Blackbridge, Aberdaugleddau; Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro; Parc Busnes Llwynhelyg, Hwlffordd; a Threcŵn). Ar safle Trecŵn, cyrhaeddwyd y trothwy am nad oedd y gwaith datblygu wedi dechrau ar 31 Mawrth 2017. (Ar y tri safle arall, ni chyrhaeddwyd y trothwyon sy'n benodol i safle).

- Cynnydd tuag at ddarparu safleoedd defnydd cymysg (Old Hakin Road, Hwlffordd; Iard Arnold, Johnston; a Dale Road, Hubberston). Gweithredwyd sbardun ar gyfer gweithredu pellach – nid oes gan safleoedd ganiatâd cynllunio erbyn Adolygu'r Cynllun (2017) – ar gyfer dau safle am nad oedd caniatadau defnydd cymysg cyfredol ar gyfer Iard Arnold na Dale Road ar 31 Mawrth 2017.

- Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.1 – nod diogelu maen prawf 3.

- Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38.

**Casgliadau ac Argymhellion**

xi. Nid yw'r trothwyon yn yr un o'r achosion hyn yn awgrymu bod diffyg sylfaenol yn strategaeth neu bolisïau'r CDLl. Mae ymchwiliad pellach wedi dangos bod rhesymau priodol dros y caniatadau hyn a bod cam(au) gweithredol gan randdeiliaid eisoes ar waith o fynd i'r afael ag unrhyw faterion ehangach – er enghraifft, gwaith gan y Cyngor a phartneriaid eraill ar adfywio canol trefi.

xii. Mae'r broses o adolygu'r Cynllun bellach ar waith, sy'n gyfle i ymdrin â'r agweddau hynny ar y Cynllun lle cyrhaeddwyd trothwy. Mae adolygu'r Cynllun hefyd yn gyfle i ddiweddaru'r Cynllun yn fwy cyffredinol, drwy ddadansoddi gwybodaeth gyd-destunol, er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi polisïau a chynigion ar waith sy'n ymateb i dystiolaeth a materion cyfredol.

xiii. Rhydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn (AMB 4) wybodaeth gefndirol i lywio Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi tua diwedd 2017.

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Penfro yn ffurfiol gan Gyngor Sir Penfro (CSP) ar 28 Chwefror 2013. Ar ôl mabwysiadu ei CDLl, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor o dan adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

1.2 Hwn yw'r pedwerydd AMB a gyhoeddwyd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfnod 2013-2014, 2014-2015, 2015-2015 yn y tablau, er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

1.3 Prif nod pob AMB yw asesu i ba raddau y mae Strategaeth ac Amcanion Strategol y CDLl yn cael eu cyflawni. Felly mae'n chwarae dwy brif rôl: yn gyntaf, i ystyried a yw'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd o fewn y fframwaith monitro yn cael eu cyflawni; ac yn ail, i ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd, er mwyn penderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r cynllun. Ar gyfer blwyddyn 4 yr AMB, mae hyn yn y cyd-destun y dechreuir Adolygu'r Cynllun ar ddechrau blwyddyn 5 yr AMB, gan fod y trothwy ar gyfer adolygiad o'r fath bedair mlynedd ar ôl ei fabwysiadu bellach wedi'i gyrraedd. Ochr yn ochr â'r prif rolau hyn, mae'r AMB hefyd yn ystyried cydymffurfiaeth yn y cyd-destun a roddir gan Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Arfarniadau Rheoliadau Cynefinoedd.

1.4 Yr AMB yw'r prif ddull o adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLl a nodi unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen. Prif swyddogaeth y broses fonitro yw nodi a ddylai'r CDLl gael ei adolygu neu a oes angen cymryd camau gweithredu eraill. Gan fod yr Adolygiad o'r Cynllun bellach ar waith, bydd yn darparu tystiolaeth o'r hyn y gallai fod angen ei newid a'r rhesymau dros hyn, gan lywio cynnwys y Cynllun a ddaw yn ei le yn y pen draw.

**Y gofyniad i fonitro'r CDLl**

1.5 Mae Pennod 7 ac Atodiad 5 i'r CDLl yn nodi'r targedau a'r dangosyddion monitro a gaiff eu defnyddio fel sail i'r AMB hwn. Mae'r rhain yn sicrhau bod gwaith monitro o flwyddyn i flwyddyn yn gyson ac yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio Rheoliad 37 y CDLl. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ofynnol i'r AMB:

- Nodi'r polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu ar gyfer pob polisi o'r fath:
    - Amlinellu'r rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;

- Nodi'r camau y gellir eu cymryd i'w gwneud yn bosibl i'r polisi gael ei weithredu;
- Nodi a oes angen diwygio'r cynllun.

- Nodi'r cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai o'r Adroddiad ar y Tir sydd ar gael ar gyfer Tai ar gyfer y flwyddyn honno, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu.
- Nodi nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal y CDLl ar gyfer y flwyddyn honno, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu.

1.6 Mae'r Llawlyfr ar CDLlau yn ategu'r gofyniad hwn drwy nodi ffactorau ychwanegol a ddylai gael eu hasesu yn yr AMB, sef:

- A yw'r strategaeth sylfaenol yn dal i fod yn gadarn ai peidio;
- Pa effeithiau y mae'r polisïau yn eu cael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol;
- A oes angen i'r polisïau gael eu newid er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y polisi cenedlaethol;
- A yw'r polisïau a'r targedau cysylltiedig yn y CDLl wedi cael eu cyflawni neu a oes cynnydd yn cael ei wneud i'w cyflawni, gan gynnwys cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol;
- Pan na fydd cynnydd wedi'i wneud, y rhesymau dros hyn a'r effeithiau canlyniadol y gall hynny eu cael;
- Pa agweddau ar y CDLl y mae angen eu haddasu neu eu newid, os o gwbl, am nad ydynt yn gweithio yn ôl y bwriad neu nad ydynt yn cyflawni amcanion y strategaeth a / neu amcanion cynaliadwyedd;
- Os bydd angen newid y polisïau neu'r cynigion, y camau gweithredu a awgrymir i gyflawni hyn.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig diwygio Llawlyfr y CDLl a bydd AMBau yn y dyfodol yn adlewyrchu unrhyw ofynion newydd yn ymwneud â CDLlau sy'n dod i'r amlwg yn dilyn y gwaith diwygio.

1.7 Mae monitro'r CDLl hefyd yn gyson â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AoG). Ceir gorgyffwrdd, yn ei hanfod, rhwng y wybodaeth a ddefnyddir i lywio'r gwaith o fonitro'r AAS/AoG a'r hyn a ddefnyddir i fonitro'r Cynllun yn uniongyrchol. Wrth ddatblygu'r Cynllun, cynhaliwyd Arfarniad o'r Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, gan nodi lle

y gall fod angen asesiadau unigol ar gam cais. Mae'r AMB yn diweddaru'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd.

**Fformat a chynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

1.8 Mae'r broses fonitro, yn anochel, yn cynnwys casglu a dehongli cryn dipyn o wybodaeth. Er mwyn sicrhau bod yr AMB yn hawdd ei ddarllen, cyflwynir llawer o'r dadansoddiadau o ddata sy'n ei lywio yn yr Atodiadau, gyda'r prif gasgliadau yn cael eu cyflwyno yn yr AMB ei hun.

1.9 Mae strwythur yr AMB fel a ganlyn:

- Crynodeb Gweithredol – mae hwn yn rhoi crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau AMB y CDLl.
- Newidiadau Cyd-destunol – mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw newid mewn amgylchiadau sydd y tu hwnt i gylch gwaith y cynllun a allai effeithio ar y ffordd y cyflawnir y fframwaith polisi.
- Crynodeb o Ganlyniadau Monitro'r CDLl – mae'r adran hon yn nodi prif ganfyddiadau'r fframwaith monitro, gan gynnwys nodi unrhyw bolisïau sydd wedi cyrraedd eu trothwyon ac unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig y mae angen eu cymryd o ganlyniad i hynny.
- Crynodeb o Ganlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Arfarniad o'r Rheoliadau Cynefinoedd – mae'r adran hon yn nodi prif ganfyddiadau gwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd, gan nodi prif effeithiau'r Cynllun ac ystyried a oes angen adolygu'r cynllun ar y seiliau hyn.
- Casgliadau ac Argymhellion – mae'r adran hon yn cyflwyno casgliadau'r AMB a'i argymhellion ar gyfer camau gweithredu, gan gynnwys datganiad ynghylch a oes angen addasu unrhyw bolisïau a/neu ddiwygio'r cynllun ymhellach.
- Atodiadau – mae'r adran hon yn cynnwys tablau manwl sy'n cyflwyno'r data crai a dadansoddiad o dargedau a throthwyon y fframwaith monitro.

**Beth y dylid ei fonitro?**

1.10 Er mwyn monitro llwyddiant Strategaeth y CDLl, mae'r AMB yn monitro'r polisïau hynny a nodir yn Atodiad 1.10 i'r Cynllun fel rhai sy'n allweddol i wireddu'r strategaeth drwy gyflawni'r amcanion strategol. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys cymysgedd o bolisïau Strategol a Chyffredinol.

**Sut y caiff y Cynllun ei Fonitro?**

1.11 Mae Atodiad 5 i'r Cynllun yn nodi Amcanion Strategol y Cynllun, y canlyniadau monitro allweddol i'w cyflawni, y polisïau i gyflawni hyn a dangosyddion, targedau polisi a throthwyon perthnasol ar gyfer ymchwiliadau pellach.

1.12 Mae'r dangosyddion a amlinellir yn Atodiad 1 yn nodi'r hyn sy'n cael ei fesur ac mae'r targedau yn nodi'r hyn y disgwylir ei gyflawni gan bolisïau, o dan amgylchiadau delfrydol ac unffurf. Mae trothwyon ar gyfer ymchwiliadau pellach yn nodi pwyntiau neu lefelau sy'n berthnasol i darged. Os bydd dangosydd yn cyrraedd trothwy neu'n mynd y tu hwnt iddo, caiff y polisi perthnasol ar gyfer y targed hwnnw ei nodi a'i ystyried yn yr AMB fel polisi sy'n methu o bosibl. Fodd bynnag, dylid pwysleisio nad polisïau sy'n methu fydd pob polisi sy'n cael ei nodi a'i ystyried yn yr AMB, gan y bydd ffactorau dilys o bosibl sy'n peri i un, neu fwy, o'r targedau gyrraedd eu trothwyon.

**Asesiadau a chasgliadau**

1.13 Yn gyntaf, mae'r AMB yn ystyried a yw'r polisïau a nodwyd yn y broses fonitro yn cael eu gweithredu. Mae hefyd yn ystyried y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn penderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r Cynllun. Lle mae adolygiad eisoes ar waith, bydd yn llywio pa elfennau o'r Cynllun y gall fod angen eu newid.

1.14 Mae'n bwysig bod y AMB, er ei fod yn anochel yn dibynnu ar gryn dipyn o wybodaeth ystadegol, hefyd yn defnyddio dadansoddiadau beirniadol o'r cyd-destun a'r materion ehangach. Yn y ffordd hon, bydd AMBau yn mynd ati i gyflwyno dadansoddiad pwyllog ac ystyriol o'r holl wybodaeth briodol, er mwyn sicrhau y caiff y cynllun ei fonitro'n effeithiol o flwyddyn i flwyddyn.

1.15 Mae'r AMB yn nodi sut y cyflawnir y cynllun mewn ffordd benodol ac uniongyrchol. Os canfyddir bod polisïau'n methu, caiff argymhellion clir ynglŷn â'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â hyn eu nodi yng Nghasgliadau ac Argymhellion yr Adroddiad. Os bydd angen newid polisïau, bydd yr AMB yn awgrymu camau gweithredu priodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

# 2. Gwybodaeth Gyd-destunol

2.1 Mae i'r adran hon ddwy ran:

- Mae'r rhan gyntaf yn crynhoi'r Cynlluniau, y Polisïau a'r Strategaethau hynny sydd wedi cael eu cyhoeddi neu eu diwygio'n helaeth ers cyfnod adrodd AMB 3 y CDLl. Cyfeirir at ddeddfwriaeth arfaethedig ac ymgynghoriadau diweddar a chyfredol hefyd. Nodir goblygiadau posibl i'r CDLl a'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn cael ei gyflawni. Ni chaiff dogfennau a gyhoeddwyd cyn cyfnod monitro'r pedwerydd AMB, a lle na fu unrhyw newid sylweddol, eu cynnwys.

- Mae'r ail ran yn ystyried data a thueddiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Y rhai a nodir yma yw'r rhai a ddigwyddodd yn ystod pedwerydd blwyddyn gweithrediad y Cynllun. Ystyrir a yw'r tueddiadau a nodwyd yn debygol o effeithio ar y ffordd y cyflawni'r CDLl.

## Rhan 1: Newidiadau Deddfwriaethol

2.2 <u>Deddfwriaeth Sylfaenol – Cymru</u>

- **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

  Cafodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith ar 21/03/16.

  Mae'n gwneud newidiadau i ddwy brif gyfraith y DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol, sef Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae rhai darpariaethau annibynnol hefyd.

  Mae'r Ddeddf newydd yn:

  - Diogelu adeiladau rhestredig a Henebion Cofrestredig.
  - Gwella rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy.
  - Cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau am yr amgylchedd hanesyddol.

  Daeth rhai o'r mesurau newydd i rym ym mis Mai 2016 ond mae llawer mwy yn gofyn am is-ddeddfwriaeth neu baratoadau eraill cyn iddynt ddod i rym.

  Rhydd y Ddeddf system hyblyg ac effeithiol i Gymru reoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n adlewyrchu egwyddorion ac arferion cadwraeth cyfredol.

Mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed.

Goblygiadau i'r CDLl – caiff y ddeddfwriaeth newydd ei hystyried wrth baratoi'r CDLl newydd.

# Rhan 2: Polisi a Chanllawiau

2.3 Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru

- **PCC argraffiad 9**

Cyflwynwyd nifer o newidiadau allweddol yn yr argraffiad diweddaraf hwn o PCC. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu cyflwyno'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio; newidiadau mewn deddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016; newidiadau gweithdrefnol ym maes Rheoli Datblygu; Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol; diwygiadau i TAN 4 a diweddariadau ffeithiol eraill.

Goblygiadau i'r CDLl – caiff y newidiadau hyn eu hystyried wrth baratoi'r CDLl newydd.

2.4 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Llywodraeth Cymru

- **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a baratoir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd)**

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn amlinellu fframwaith defnydd tir 20 mlynedd ar gyfer Cymru a bydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru unwaith y caiff ei gwblhau. Bydd yn pennu ble mae angen twf a seilwaith pwysig cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio gyflawni hynny. Rhydd gyfeiriad Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol a bydd yn helpu i benderfynu ar geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r FfDC ar gamau paratoi cynnar. Bu cais am dystiolaeth a phrosiectau er mwyn helpu i'w baratoi a chyhoeddwyd datganiad cyfranogiad y cyhoedd.

Goblygiadau i'r CDLl – nid yw'n debygol y caiff y FfDC ei gwblhau nes ymhell ar ôl i'r broses o adolygu CDLl y Cyngor ddechrau. Bydd y Cynllun newydd yn adlewyrchu syniadau ynghylch cynnwys tebygol y FfDC ac efallai y bydd angen ei addasu ar ôl i ddarpariaethau'r FfDC gael eu pennu'n derfynol.

2.5 Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru

- **TAN 4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol 2016 – Tachwedd 2016**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn disodli fersiwn gynharach. Rhydd gyngor ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Strategaethau manwerthu, uwchgynlluniau a Chynlluniau Lleoedd
- Profion o angen manwerthu a'r dull dilyniannol o ddatblygu
- Asesiadau o Effaith Manwerthu
- Prif Ardaloedd ac Ardaloedd Eilaidd Manwerthu a Masnachol mewn canolfannau
- Amodau cynllunio ar gyfer manwerthu
- Gorchmynion Datblygu Lleol
- Dangosyddion bywiogrwydd a hyfywedd mewn ardaloedd manwerthu a masnachol

Goblygiadau i'r CDLl – caiff darpariaethau argraffiad newydd TAN 4 eu hystyried wrth ddrafftio polisïau a chynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol ar gyfer y CDLl newydd.

2.6 Llythyrau Llywodraeth Cymru at Brif Swyddogion Cynllunio a llythyrau Egluro Polisi (2016)

Anfonwyd llythyrau i Awdurdodau Lleol yn tanlinellu newidiadau i'r ddeddfwriaeth/canllawiau canlynol (a drafodir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon).

- **Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 – 19/05/16**
- **Cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 Tachwedd 2016 – 17/11/16**

Goblygiadau i'r CDLl – caiff y newidiadau hyn eu hystyried wrth baratoi'r CDLl newydd.

Anfonwyd llythyrau ychwanegol ar y materion canlynol:

- **Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch cyflenwi cartrefi fforddiadwy drwy'r system gynllunio – 23/02/17**
- **Trosglwyddo'r Map Cyngor Datblygu (i Cyfoeth Naturiol Cymru) – 22/03/17**

Goblygiadau i'r CDLl – rhoddir ystyriaeth briodol i'r angen i gyflenwi tai fforddiadwy a'r Map Cyngor Datblygu diweddaraf wrth ddrafftio polisïau a chynigion ar gyfer y CDLl newydd.

Mae'r llythyrau canlynol wedi cynnig eglurhad ar faterion polisi:

- **CL-02-16 – Goblygiadau diwygiadau diweddar i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd o safbwynt Nodyn Cyngor Technegol 1**

  Mae'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd diwygiedig bellach yn cynnwys dosbarth defnydd newydd, C4 dynodedig, ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth lle mae rhwng tri a chwe pherson nad ydynt yn perthyn yn byw ynddynt ac yn rhannu amwynderau sylfaenol. Mae'r llythyr hwn yn egluro bod y Tai Amlfeddiannaeth bach hyn yn rhan o'r diffiniad o dai at ddibenion cyflenwi tir tai, fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1 (TAN 1).

  Goblygiadau i'r CDLl – caiff hyn ei ystyried wrth asesu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai.

- **CL-03-16 – Lwfansau newid yn yr hinsawdd at ddibenion cynllunio**

  Mae'r llythyr hwn a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi lwfansau ar gyfer newid yn yr hinsawdd i'w defnyddio mewn Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd. Polisi Llywodraeth Cymru yw na ddylid caniatáu datblygiad lle mae'r perygl o lifogydd yn annerbyniol, naill ai nawr neu yn y dyfodol. Disgwylir i'r perygl o lifogydd gynyddu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Felly, mae'n bwysig ystyried y perygl cynyddol wrth ystyried ceisiadau cynllunio ac wrth baratoi ac adolygu CDLlau.

  Goblygiadau i'r CDLl – rhoddir ystyriaeth briodol i'r lwfansau newid yn yr hinsawdd wrth baratoi polisïau a chynigion ar gyfer y CDLl newydd.

2.7 Canllawiau a Thaflenni Cynllunio

- **Llawlyfr Strydoedd (Saesneg yn unig) – 14/06/16**

  Mae'r Llawlyfr Strydoedd yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng yr Adran Drafnidiaeth, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Rhydd ganllawiau ar gynllunio, dylunio, darparu a chymeradwyo strydoedd preswyl newydd a diwygio strydoedd sy'n bodoli eisoes. Bellach mae gan y Llawlyfr Strydoedd ganllaw cyffelyb, sef Llawlyfr Strydoedd 2, sy'n mynd y tu hwnt i strydoedd preswyl ac yn ystyried sefyllfaoedd trefol a gwledig.

  Goblygiadau i'r CDLl – rhydd y Llawlyfr Strydoedd sail i gryn dipyn o gyngor yr Awdurdod Priffyrdd i Swyddogion Rheoli Datblygu ar geisiadau cynllunio.

  Mae pethau'n gyffredin â pholisi Dylunio CDLl y Cyngor ac felly caiff ei gynnwys ei ystyried wrth ddrafftio polisïau dylunio ar gyfer y CDLl newydd.

- **Tai Amlfeddiannaeth: Canllawiau Ymarfer – 13/03/17**

Rhydd y canllawiau hyn arfer da wrth reoli Tai Amlfeddiannaeth a chrynhoir y ddeddfwriaeth berthnasol.

Goblygiadau i'r CDLl – prif ddiben y canllawiau hyn yw sicrhau bod Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu rheoli'n dda a darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i gyflawni swyddogaeth Rheoli Datblygu'r Cyngor.

2.8 Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, 2015/16

- **Rheoli Ansawdd Aer a Sŵn yng Nghymru – 13/09/16 i 06/12/16**
  Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i'r ffordd y mae Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn rheoli effeithiau llygredd aer a sŵn yn eu hardaloedd.

  Goblygiadau i'r CDLl – ystyrir newidiadau i'r ffordd y caiff llygredd aer a sŵn ei reoli yng Nghymru wrth baratoi polisïau a chynigion ar gyfer y CDLl newydd.

- **Cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a chanllawiau drafft - 11/07/16 i 03/10/16**
  Ceisiodd yr ymgynghoriad hwn farn ar bedwar cynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth, un ddogfen ganllaw atodol ddrafft a phum dogfen ganllaw arfer gorau ddrafft yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru. Cyfeirir at Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 24 (TAN 24 ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy.
  Goblygiadau i'r CDLl – ystyrir darpariaethau'r Ddeddf newydd a TAN 24 wrth ddrafftio polisïau a chynigion yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer y CDLl newydd.

- **Strategaeth y Gymraeg – 01/08/16 i 31/10/16**
  Cynigir Strategaeth y Gymraeg newydd, a fydd yn disodli'r strategaeth bresennol 'Iaith Fyw: Iaith Byw', sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2012 a 2017. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bydd y Strategaeth newydd yn amlinellu'r camau nesaf tuag at gyflawni'r weledigaeth honno.
  Goblygiadau i'r CDLl – rhoddir ystyriaeth briodol i'r Gymraeg, gan gynnwys darpariaethau'r Strategaeth newydd unwaith y bydd yn barod, wrth baratoi'r CDLl newydd.

- **Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru – 29/09/16 i 23/12/16**
  Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r llygredd dŵr a achosir neu a berir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Elfen bwysig o hyn yw adolygiad o Barthau Perygl Nitradau a gweithredu Rhaglen gysylltiedig. Cyflwynir amryw o opsiynau yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys dynodiad PPN Cymru gyfan neu ddynodiadau pwrpasol yn ymwneud â rhannau penodol o Gymru, gan gynnwys dalgylch Cleddau.

Goblygiadau i'r CDLl – daw'r rhain yn gliriach unwaith y bydd yr adolygiad wedi dod i ben a bod graddau'r dynodiadau newydd yn hysbys. Mae'n bosibl y bydd canlyniadau o ran cynllunio, efallai gan gynnwys ceisiadau pellach am lagwnau slyri.

- **Newidiadau arfaethedig i sut y mae'r asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio Gwlad a Thref – 22/08/16 i 11/11/16**
  Cynigir newidiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2016, er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2014/52/UE ar Asesu Effeithiau Amgylcheddol.
  Goblygiadau i'r CDLl – bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gyfrifoldebau Rheoli Datblygu'r Cyngor yn bennaf.

- **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) Arfaethedig 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol – 11/07/16 i 03/10/16**

  Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â drafftio Nodyn Cyngor Technegol newydd ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae'n adlewyrchu adborth anffurfiol a gafwyd ar fersiwn gynharach, a ddarparwyd er mwyn helpu i graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 bellach ar waith ac mae Polisi Cynllunio Cymru, argraffiad 9, bellach yn cynnwys Pennod 6 newydd, sy'n adlewyrchu darpariaethau'r Ddeddf hon.

  Goblygiadau i'r CDLl – pan fydd yn barod, caiff darpariaethau'r TAN 24 newydd eu hystyried wrth ddrafftio'r CDLl newydd.

- **Diwygio Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru – papurau trafod cychwynnol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, i'w hystyried gan Grwpiau Cynllunio Rhanbarthol / Strategol yng Nghymru**

  Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig mireinio Llawlyfr y CDLl, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o baratoi'r CDLl ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y ffocws newydd ar baratoi'r Cynllun, gyda llai o bwyslais ar agweddau gweithdrefnol nag o'r blaen. Disgwylir i gwmpas y ddogfen newid hefyd, er mwyn adlewyrchu pob elfen o system y Cynllun Datblygu, nid dim ond CDLlau. Mewn geiriau eraill, cyfeirir hefyd at y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd a'r posibilrwydd o gyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar gyfer rhai rhannau o Gymru.

  Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r tri Grŵp Cynllunio Strategol yng Nghymru ymateb i'r ymgynghoriad (yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol). Cafodd yr ymateb gan Grŵp Cynllunio Strategol y de-orllewin ei anfon i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2017.

Goblygiadau i'r CDLl – ni wyddys beth yw canlyniad yr ymgynghoriad eto, ond disgwylir i fanylion pellach bod ar gael ar gyfer AMB nesaf y CDLl.

- **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gylchlythyr drafft ar gyfer Cynllunio Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (yn cau 22/05/17)**

  Caeodd yr ymgynghoriad hwn ar 22/05/17 (ym mlwyddyn 5 AMB y CDLl).

  Goblygiadau i'r CDLl – ni wyddys beth yw canlyniad yr ymgynghoriad eto, ond disgwylir i fanylion pellach bod ar gael ar gyfer AMB nesaf y CDLl.

- **Cymeradwyo Is-ddeddfau Draenio Tir gan Lywodraeth Cymru, 2017**

  Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cytuno i greu set enghreifftiol o is-ddeddfau ledled Cymru, yn ymwneud â'r perygl o lifogydd a rheoli tir ac i uwch swyddogion Llywodraeth Cymru gytuno ar yr Is-ddeddfau ar gyfer pob Awdurdod Lleol unigol.

  Goblygiadau i'r CDLl – nodir y cynnig i gyflwyno Is-ddeddfau Draenio Tir a gall fod manylion pellach ar gael ar gyfer AMB nesaf y CDLl.

2.9 Ymgynghoriadau gan sefydliadau eraill:

- **Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar baratoi Asesiad Seilwaith Cenedlaethol, Hydref 2016**

  Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU yn datblygu strategaethau'r dyfodol ar gyfer datblygu seilwaith, er mwyn llywio Asesiad Seilwaith Cenedlaethol sydd ar ddod, a ddisgwylir yn 2018. Bydd themâu'r Asesiad Seilwaith Cenedlaethol yn eang eu natur ac yn drawsbynciol, gan gynnwys trafnidiaeth, cyfathrebu digidol, ynni, dŵr a dŵr gwastraff (draenio a charthffosiaeth), rheoli perygl llifogydd a gwastraff solet.

  Goblygiadau i'r CDLl – mae'r Asesiad Seilwaith Cenedlaethol ar gam cynnar o ran ei ddatblygu. Efallai y bydd manylion pellach ar gael ar gyfer AMB nesaf y CDLl.

# Rhan 3: Dogfennau Cyngor Sir Penfro:

2.10 Cynnydd o ran paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol y CDLl a gwaith amgylchedd hanesyddol ac adfywio allweddol arall

- Cafodd **Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy** eu cymeradwyo gan y Cabinet a daethant i rym ar 31 Hydref 2016. Mae **Asesiad Ynni Adnewyddadwy** ar gyfer ardal awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor hefyd wedi'i baratoi a bydd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLl newydd.
- Cafodd **Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio** eu paratoi ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Cymeradwyodd y Cabinet y ddogfen ar 12 Medi 2016 a daeth i rym ar 16 Medi 2016. Mae'n disodli eitem gynharach o CCA y Cyngor ar yr un pwnc.

- Cafodd **Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu** eu diweddaru ym mis Rhagfyr 2016, gyda'r fersiwn hon yn disodli fersiwn gynharach.
- **Arfarniadau Cymeriad a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth:** Mabwysiadwyd Arfarniadau Cymeriad a Chynllun Rheoli Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer Abergwaun, Wdig a Thref Isaf Abergwaun gan yr Awdurdod ym mis Tachwedd 2016. Hefyd mabwysiadwyd newidiadau i ffiniau Ardaloedd Cadwraeth Abergwaun ac Wdig ac Erthygl 4(2) Cyfarwyddiadau ar gyfer Tref Isaf ac Wdig. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Arfarniadau Cymeriad a Chynlluniau Rheoli drafft ar gyfer Penfro a Doc Penfro, gan gynnwys ystyried yr angen i ddiwygio ffiniau Ardaloedd Cadwraeth a'r angen am Gyfarwyddiadau Erthygl 4 diwygiedig / newydd.
- Cafodd **Uwchgynllun Hwlffordd** ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 16 Medi 2016 ac mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith i lywio'r gwaith o adfywio'r Dref Sirol. Cynigir paratoi Uwchgynlluniau pellach ar gyfer pum tref arall yn Sir Benfro yn ystod 2017/18. Y pum tref yw Abergwaun, Penfro, Doc Penfro, Aberdaugleddau a Dinbych-y-pysgod. Mae'r pedair gyntaf yn ardal awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor, ond mae Dinbych-y-pysgod ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

## Rhan 4: Ymrwymiadau o AMB 3 i adrodd yn ôl

2.11 Ymrwymiadau i adrodd yn ôl yn fanylach o AMB 3 (lle na chyflwynwyd adroddiad mewn man arall):

- Mae **Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20 – Cynllunio a'r Gymraeg** bellach wedi'i ddiwygio a'i gyhoeddi, gan ddisodli fersiwn gynharach o'r ddogfen. Mae ei ddarpariaethau yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a bydd angen ei ystyried wrth baratoi'r CDLl newydd.

- **Cynlluniau ar gyfer ad-drefnu Llywodraeth Leol**

  Cafodd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' ei gyhoeddi ar 31/01/17, gyda'r ymgynghoriad yn para tan 11/04/17. Mae'n rhagweld cydberthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a chydnabyddiaeth o briod rolau a buddiannau. Disgwylir mwy o waith rhanbarthol. Caiff llywodraeth leol fframwaith i weithredu ynddo, ond bydd dewisiadau o fewn hyn, fel bod modd ymateb i amgylchiadau a chryfderau lleol. Yn sail i'r gwaith diwygio fydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda phwyslais ar gydweithio er budd Cymru.

- **Adolygiad Annibynnol o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru** – cyhoeddwyd 29/10/15

Adolygiad annibynnol ydoedd, er mwyn sicrhau bod tirweddau dynodedig Cymru yn barod i ateb yr heriau presennol a heriau yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr Adolygiad ar 29/10/15 ac mae'n gwneud 69 o argymhellion, sy'n ymwneud â dibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio a chyllid. Yr argymhellion allweddol oedd:

- na ddylid newid enw na statws cyfreithiol Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- y dylai rôl cymorth a chyflawni cyrff eraill gael ei chryfhau;
- y dylid creu Pwyllgor Tirwedd Naturiol.

Sefydlwyd Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru wedyn i archwilio'r argymhellion, yr achos dros newid, a chyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau. Cafodd adroddiad, sef 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru', ei gyhoeddi ym mis Mai 2017 (ac felly ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yn yr AMB hwn).

Goblygiadau i'r CDLl – bydd CDLlau ar wahân yn parhau i gael eu paratoi gan y Cyngor a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, ond ar sail cryn dipyn o dir cyffredin ac ymrwymiad i gydweithio lle bynnag y bo hynny'n ddichonadwy. Caiff rhagor o wybodaeth am adroddiad 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru' ei chynnwys ym mlwyddyn 5 yr AMB.

- **Monitro Gwastraff**

**Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer De-orllewin Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn ymwneud â Rhanbarth y de-orllewin yng ngwanwyn 2017:

- Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Interim, Mawrth 2015
- Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff, 2016

Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gynllunio gwastraff yn ymwneud â Sir Benfro, yr Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y Rhanbarth a'r Rhanbarth yn gyffredinol.

Goblygiadau i'r CDLl – ystyrir y wybodaeth yn yr Adroddiadau Monitro wrth adolygu'r CDLl.

- **Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru**

**Adroddiad Blynyddol y Gweithgor ar gyfer 2014**

Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Mae'n cydgysylltu'r wybodaeth am werthu agregau a gafwyd gan yr holl

weithredwyr mwynau drwy'r 18 o awdurdodau cynllunio mwynau o fewn rhanbarth y de.

Goblygiadau i'r CDLl – ystyrir y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac Adroddiadau Blynyddol dilynol pan gaiff y CDLl ei adolygu.

- **Dŵr Cymru – Cynllun Rheoli Asedau 6 (AMP 6)**

  Gwnaeth Dŵr Cymru ymgynghori ar egwyddorion cyffredinol Cynllun Rheoli Asedau 6 (AMP 6), ar gyfer y cyfnod 2015 i 2021, ac mae hefyd wedi cyhoeddi ei Gynllun Busnes ar gyfer 2015-2020. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi un datblygiad seilwaith mawr yn sir Benfro, o dan bennawd sicrhau bod digon o ddŵr i ateb y galw, ymdopi â hinsawdd sy'n newid ac ymdrin â newidiadau i drwyddedau: gweithredu cynllun i symud dŵr o Bolton Hill i Breseli. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddefnyddio trefniant tynnu dŵr trwyddedig amgen ac adeiladu prif gyflenwad dŵr newydd ym Mhont Cleddau am gost o £6m. Disgrifir buddsoddiadau eraill yn nhermau dull gweithredu strategol, yn hytrach na lleoliadau a enwyd, sy'n wahanol i Gynlluniau Rheoli Asedau blaenorol.

  Goblygiadau i'r CDLl – mae i benderfyniadau buddsoddi Dŵr Cymru oblygiadau o ran y gallu i gyflawni dyraniadau a hap-safleoedd y CDLl. Bydd yr adolygiad o'r CDLl yn dibynnu ar wybodaeth fanwl gan Dŵr Cymru am gynigion buddsoddi lleol a'u hamseriad. Rhoddir gwybodaeth bellach am baratoi AMB 7 yn AMB 5 y CDLl.

- **Cynlluniau Rheoli Basn Afon a Chrynodebau Dalgylchoedd Cyfoeth Naturiol Cymru**

  Cafodd Datganiad Manylion Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru a Chrynodeb Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015 – 2021 eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015. Hefyd mae Crynodebau Dalgylchoedd ar gyfer a) Bae Caerfyrddin a Gŵyr, b) Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro ac c) y Teifi a Gogledd Ceredigion. Fel y nodwyd uchod, mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn diweddaru'r Map Cyngor Datblygu pan fydd yn diweddaru'r Mapiau Perygl Llifogydd (sy'n digwydd bob chwarter).

  Goblygiadau i'r CDLl – caiff y Cynlluniau Rheoli, Crynodebau Dalgylchoedd, Map Cyngor Datblygu a Mapiau Perygl Llifogydd eu hystyried wrth ddrafftio'r CDLl newydd (CDLl 2).

2.21 Cynlluniau Datblygu Lleol Awdurdodau Cyfagos

- **Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – mae'r broses o adolygu CDLl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi dechrau.**

Mae Adroddiad Adolygu, Cytundeb Cyflawni y Cynllun Newydd ac Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u paratoi i ategu'r gwaith o baratoi'r CDLl newydd (CDLl 2 APCAP). Hefyd, adolygwyd a diweddarwyd y Sylfaen Dystiolaeth sy'n sail i'r Cynllun.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi hysbysebu am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer ei CDLl 2. Mae Cyngor Sir Benfro wedi cyflwyno safleoedd amrywiol i'w hystyried.

Dechreuodd ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir ddrafft a dogfennau cysylltiedig amrywiol ym mis Mai 2017 (y tu hwnt i gyfnod adrodd yr AMB hwn) – felly caiff rhagor o wybodaeth ei chynnwys yn AMB 5 y CDLl.

- **Cyngor Sir Ceredigion** – mabwysiadwyd CDLl Ceredigion ar 25/04/13. Dechreuwyd adolygu CDLl Ceredigion yn ddiweddar. Caiff gwybodaeth bellach ei chynnwys yn AMB 5 y CDLl.
- **Cyngor Sir Caerfyrddin** – mabwysiadwyd CDLl Sir Caerfyrddin ar 10/12/14. Y dyddiad pedair blynedd ar gyfer dechrau'r adolygiad o'r CDLl yw 10/12/18. Fodd bynnag, am fod CDLl Sir Caerfyrddin yn gorffen yn 2021, mae'r adolygiad yn debygol o ddechrau yn gynt na'r disgwyl, yn ystod hydref 2017. Caiff gwybodaeth bellach ei chynnwys yn AMB 5 y CDLl.

## Rhan 2: Data a Thueddiadau Cymdeithasol ac Economaidd

### 2.13 Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o'r Boblogaeth ac Aelwydydd

- Cafodd goblygiadau Amcanestyniadau 2011 o'r Boblogaeth ac Aelwydydd yn seiliedig ar Awdurdodau Lleol i Gymru, sy'n adlewyrchu data o Gyfrifiad 2011, eu trafod yn yr AMB cyntaf. Cafodd yr amcanestyniadau diweddaraf o'r boblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2014 eu rhyddhau ar 23 Mawrth 2017.
- Mae gofyniad tai y CDLl yn seiliedig ar amcanestyniadau o aelwydydd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2008. Roedd y rhain yn fan cychwyn ar gyfer y ffigurau, ond mae'r CDLl yn darparu ar gyfer 1,605 o anheddau yn fwy na'r 5,724 o unedau sydd eu hangen, er mwyn caniatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu'r stoc dai bresennol a pheidio â defnyddio safleoedd. Roedd gan amcanestyniadau o'r boblogaeth a oedd yn seiliedig ar 2011 a 2014 boblogaeth sylfaen uwch nag amcanestyniadau o'r boblogaeth yn seiliedig ar 2006 a 2008 yn sgil defnyddio data o Gyfrifiad 2011, yn hytrach na Chyfrifiad 2001.
- Dengys y graffiau canlynol y gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd ar gyfer 2006, 2008, 2011 a 2014 ar gyfer Sir Benfro:

**Amcanestyniad o'r Boblogaeth**




**Amcanestyniad o Aelwydydd**




- Dengys y tabl canlynol y gwahanol elfennau yn yr amcanestyniadau:

**Cymharu'r amcanestyniadau**

| Elfen Amcanestyniad 2017-18 | Seiliedig ar 2006 | Seiliedig ar 2008 | Seiliedig ar 2011 | Seiliedig ar 2014 |
|---|---|---|---|---|
| Genedigaethau | 1317 | 1250 | 1306 | 1198 |
| Marwolaethau | 1380 | 1283 | 1338 | 1352 |
| Cyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol[1] | 68.92401 | 67.54566 | 68.34118 | 63.56802 |
| Bras Amcan o'r Marwolaethau[2] | 10.96247 | 10.44015 | 10.73655 | 10.9098 |
| NetMigrInt | 785 | 594 | 299 | 268 |
| NetMigrOvs | 65 | 11 | 54 | -17 |

- I grynhoi, mae'r rhagamcan is o'r boblogaeth yn amcanestyniad seiliedig ar 2014, o gymharu â'r amcanestyniadau blaenorol, yn sgil llai o enedigaethau a mwy o farwolaethau a niferoedd disgwyliedig is o ymfudwyr net (oherwydd niferoedd is yn y pum mlynedd flaenorol).
- Mae hefyd yn werth nodi bod y pedwar amcanestyniad o'r boblogaeth a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar 2006, 2008, 2011 a 2014) i gyd yn dangos rhagamcanion is o dwf yn y boblogaeth na'r hyn a welwyd yn flaenorol (gweler y siart).
- Wrth baratoi CDLl 2, bydd angen i'r Awdurdod asesu'n ofalus oblygiadau'r amcanestyniadau mwyaf diweddar wrth bennu'r tir a ddarperir ganddo ar gyfer tai. O ran y ffordd y gweithredir y CDLl ar hyn o bryd, efallai, yn sgil amcanestyniadau 2014, fod y tir a ddarperir ar gyfer tai yn y CDLl yn hael. Fodd bynnag, efallai y bydd hyn yn lleihau rhywfaint o'r pwysau hanesyddol ar gostau tai a allai fod yn arwain at gyfraddau is o ran ffurfio aelwydydd nag a fyddai'n ddisgwyliedig fel arall.

[1] nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o ferched rhwng 15 a 44 oed

[2] nifer y marwolaethau fesul 1,000 o'r boblogaeth

- 

Y cyd-destun presennol, tueddiadau a materion adfywio lleol

**Dangosyddion Cyflogaeth ac Enillion**

| **Dangosydd** | **Sir Benfro (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol)** | **Cymru** | **Prydain Fawr** |
|---|---|---|---|
| Di-waith Rhagfyr 2012 | 6.4% | 8.3% | 7.9% |
| Di-waith Rhagfyr 2013 | 7.1% | 7.9% | 7.5% |
| Di-waith Rhagfyr 2014 | 5.7% | 6.8% | 6.2% |
| Di-waith Rhagfyr 2015 | 5.1% | 5.9% | 5.2% |
| Di-waith Rhagfyr 2016 | 4.3% | 4.6% | 4.8% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2012 | 69.4% | 67.3% | 70.7% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2013 | 69.4% | 68.9% | 71.3% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2014 | 71.6% | 69.5% | 72.4% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2015 | 72.7% | 70.3% | 73.6% |
| Mewn gwaith Rhagfyr 2016 | 73.5% | 71.2% | 74.0% |
| Cyflog gros yr wythnos 2012 | £419.9 | £454.9 | £508.3 |
| Cyflog gros yr wythnos 2013 | £478.83 | £475.3 | £517.9 |
| Cyflog gros yr wythnos 2014 | £432.5 | £479.4 | £520.8 |
| Cyflog gros yr wythnos 2015 | £430.0 | £473.4 | £529.0 |
| Cyflog gros yr wythnos 2016 | £459.0 | £498.3% | £541.0 |

Ffynhonnell: Gwefan Nomis, 2017 – www.nomisweb.co.uk

2.14 Mae'r dangosyddion ar weithgarwch economaidd yn y tabl uchod yn dangos cysondeb cyffredinol yn economi sir Benfro, Cymru a Phrydain Fawr yn y cyfnod cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu ac a'r cyfnod ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Bu rhai newidiadau mewn lefelau ond nid ystyrir bod y rhain yn ddigon sylweddol i gael effaith ar y ffordd y mae'r Cynllun yn gweithredu.

**Prisiau Tai**




2.15 Mae'r Cyngor yn monitro prisiau tai a dangosyddion eraill o amodau'r farchnad dai leol yn rheolaidd. Os ystyrir bod amodau o'r fath yn ddigon arwyddocaol eu natur i newid hyfywedd ariannol datblygiad, bydd y Cyngor yn ailasesu'r dystiolaeth o hyfywedd a ddylanwadodd ar dargedau'r CDLl ar gyfer Tai Fforddiadwy. Mae'r CDLl yn rhychwantu adeg ei fabwysiadu (2013) hyd at 2021 ac mae'r gwaith monitro hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg ac yn gallu gwrthsefyll newidiadau economaidd a bod y targedau a ddefnyddir i negodi tai fforddiadwy yn dal i fod yn gadarn.

2.16 Y trothwy ar gyfer ailasesu tystiolaeth o hyfywedd yw cynnydd o 2.16% neu fwy ym mhrisiau tai uwchlaw pris sylfaenol 2012, sef £155,000, sy'n parhau dros 2 chwarter. Pe cyrhaeddid y trothwy hwn, yna byddai'r Awdurdod yn ystyried dangosyddion eraill a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy a gall gynnal profion ychwanegol ar hyfywedd.

2.17 Byddai cynnydd o 5% ers y ffigur sylfaenol yn hafal i gynnydd o £7,750. Tan chwarter 3 yn 2016, roedd prisiau tai wedi bod o dan y lefel hon. Fodd bynnag, yn chwarter olaf 2016, cododd prisiau tai i £165,000, sef cynnydd o £2,250 dros y trothwy. Cedwir llygad agos ar y chwarter canlynol er mwyn gweld a gyrhaeddir y trothwy, (cynnydd o 5% mewn prisiau tai a gynhelir dros 2 chwarter). Mae hyn yn golygu na fu unrhyw newidiadau digon sylweddol ym mhrisiau tai i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ailasesu ei waith ar hyfywedd

yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Gall fod angen gwneud mwy o waith ar hyfywedd wrth Adolygu'r Cynllun.

**Safleoedd Datblygu Mawr**

2.18

- Blackbridge – mae'r tir wedi cael ei werthu i Egnedol, sy'n datblygu prosiect ynni biomas ar safle sy'n cynnwys safle cyflogaeth strategol y CDLl ynghyd â thir ychwanegol y tu hwnt i'r ardal ddynodedig. Ystyrir bod y cais cynllunio yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac felly caiff y cais ei bennu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru. Ni fu penderfyniad ar ddiwedd blwyddyn 4 yr AMB.

- Marina Aberdaugleddau – cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ar gyfer datblygiad defnydd cymysg (14/0158/PA). Mae hwn yn cynnwys cynigion mewn dosbarthiadau defnydd A1, A2, A3, B1, B2, C1, C2, D1 a D2. Cyfeirir yn benodol at ddefnyddiau masnachol, manwerthu a physgota. Mae cynigion hefyd ar gyfer hyd at 160 o anheddau, hyd at 70 o angorfeydd ychwanegol yn y marina, iardiau cychod newydd, tirlunio, gwelliannau tir y cyhoedd, mynediad, gwaith atodol a dymchwel rhai adeiladau. Argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015. Ni roddwyd y caniatâd eto am nad yw'r cytundeb A.106 cysylltiedig wedi'i lofnodi eto. Gwnaed amrywiaeth o geisiadau llai ym Marina Aberdaugleddau. Mae'r rhai ym mlwyddyn 4 yr AMB yn cynnwys 16/0849/PA ar gyfer ystafelloedd gwesty ar y dŵr, a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2017.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gynnig Safle Gwres a Phŵer Cyfun De Hook (500MW) yn y derfynfa nwy naturiol hylifiedig gan Lywodraeth y DU ym mis Hydref 2014. Partneriaeth yn cynnwys Qatar Petroleum, Exxon Mobil ac Elf Petroleum UK oedd y prosiect, y bwriadwyd iddo fod yn weithredol erbyn 2018. Fodd bynnag, mae'r cynllun wedi cael ei ganslo bellach am fod prisiau wedi gostwng yn y farchnad ynni, ac mae'r drwydded weithredu wedi cael ei dychwelyd. Mae rhan o safle De Hook o fewn ardal gynllunio'r Cyngor.
- Caeodd safle Purfa (Murco) Aberdaugleddau gyda nifer sylweddol o swyddi lleol yn cael eu colli. Ers hynny mae'r safle hwn wedi cael ei brynu gan Puma Energy. Mae'r perchenogion newydd wedi troi llawer o'r safle yn gyfleuster storio. Yn ystod blwyddyn 4 yr AMB, gwrthodwyd cais hysbysiad

ymlaen llaw i ddymchwel y burfa i'r lefel ddaear (16/0366/PN). Fodd bynnag, cafodd cais hysbysiad ymlaen llaw dilynol i ddymchwel ardal brosesu'r burfa i'r lefel ddaear ei gymeradwyo'n amodol ym mis Hydref 2016 (16/0612/PN).

- Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer Uned Gwres a Phŵer Cyfun gwerth £100 miliwn ym Mhurfa Penfro Valero. Mae'r cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac felly caiff y cais ei bennu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru.

## Crynodeb o'r Goblygiadau i'r CDLl o Newidiadau Cyd-destunol

2.19 Mae'r broses o adolygu'r CDLl bellach wedi dechrau'n ffurfiol, a fydd yn gyfle i ymateb i'r newidiadau cyd-destunol amrywiol a nodwyd yn yr AMB hwn a rhai cynharach.

2.20 Bydd AMBau yn y dyfodol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y materion sy'n dod i'r amlwg yn sgil deddfwriaeth, polisi a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig. Byddant hefyd yn cyfeirio at wybodaeth newydd a all effeithio ar y ffordd y caiff y CDLl presennol ei weithredu a drafftio'r CDLl newydd (CDLl 2).

# 2 Crynodeb o Ganlyniadau Monitro'r CDLI

3.1. Y prif benawdau o'r wybodaeth fonitro yw:

**Tai**

3.2 Mae nifer a chyfran y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd (lle bu ennill net o ran annedd), yn unol yn fras â strategaeth anheddu'r CDLl, ond roedd lleihad yn nifer yr unedau a ganiatawyd yn y Trefi Ffocws am yr ail waith er i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn golygu canran is na'r targed (37% yn lle 50% o ganiatadau mewn Trefi Ffocws). Cafodd cyfanswm o 691 o anheddau preswyl newydd eu cymeradwyo'n amodol yn ardal y Cynllun rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. O'r rhain, roedd 259 wedi'u lleoli mewn Trefi Ffocws, sy'n hafal i 37% o'r holl ganiatadau preswyl. O'u hystyried yn erbyn y 'trothwy 3 blynedd o 50%' mae caniatadau trefi ffocws yn dal i gyflawni'r targed, sef 50%. Mewn mannau eraill roedd y canrannau yn unol â strategaeth y CDLl, ac eithrio'r Pentrefi Gwasanaeth a gafodd 5% yn fwy o ganiatadau na'r Trefi Ffocws a gafodd 37%. Mae hyn yn rhannol am i'r Dyraniad Tai mwyaf yn y Trefi Ffocws (Slade Lane) gael caniatâd cynllunio yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun a chafodd ei gynnwys yn yr AMB cyntaf (2013-2014). Parhaodd ceisiadau yng nghefn gwlad ar 7% gan adlewyrchu amrywiaeth o geisiadau am addasu anheddau, anheddau menter wledig a chynigion Datblygu Un Blaned, y mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r CDLl.






3.3 Cyflenwi tai – 365 wedi'u cwblhau (2016-2017), o gymharu â 405 wedi'u cwblhau (2015-2016), 588 wedi'u cwblhau (2014-2015), 459 yn 2013-2014 a 288 yn 2012-2013. Y targed cyflenwi yw 500 y flwyddyn yn ystod pedair blynedd gyntaf y Cynllun. Felly, mae'r ffigurau hyn ychydig yn is na'r targed (9%) ond nid yw'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach (10% yn is na'r targed) wedi'i gyrraedd eto. cyflawni'r targed monitro. O'r rhain mae 54% mewn Trefi Ffocws, 2% yn Arberth (Tref Wledig), 33% mewn aneddiadau gwledig eraill ac 11% yng nghefn gwlad. Dengys y canrannau ganran gyflenwi ychydig yn is mewn Trefi Ffocws na'r strategaeth (a oedd yn anelu at 60% yn y Trefi Ffocws) ond nid yw'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd. Ni chyflenwyd tri Safle Tai strategol eto, sydd i gyd yn y Trefi Ffocws. Mae'r safleoedd hyn (yn Slade Lane (De), Hwlffordd; Maesgwyn, Abergwaun a Shoals Hook Lane, Hwlffordd) wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach gan nad yw'r gwaith datblygu wedi dechrau yn 2017. O ran Slade Lane - rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 729 o gartrefi preswyl ar y safleoedd a nodwyd yn Slade Lane North a Slade Lane South yn Hwlffordd yn AMB 1. Fel y nodwyd yn AMB 2, mae'r ymgeisydd wedi cyflawni'r holl amodau cyn cychwyn mewn perthynas â mynediad ac mae'r gwaith mynediad i'r safle bron â'i gwblhau. Yn AMB 3, mae'r Awdurdod wedi derbyn pob cyfraniad ariannol cyn cychwyn sy'n ofynnol o dan y cytundeb S.106. Mae cytundeb Adran 278 wedi cael ei gwblhau ac mae'r Awdurdod wedi derbyn bond. Mae'r bond carthion a'r cytundeb seilwaith cyfleustodau wedi'u cwblhau

ac mae'r bondiau wedi cael eu talu. Mae tir wedi cael ei drosglwyddo at ddibenion addysg hefyd. Yn AMB 4, cymeradwywyd Adran 73 ar 23/01/17 (16/0858/PA) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl mewn perthynas ag elfen breswyl y cynnig. Mae adborth gan yr ymgeisydd i broses y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn 2017 yn awgrymu bod gwaith ar y safle yn debygol o ddechrau yn Ch2 2018. Ym Maesgwyn, Abergwaun cafodd cais Adran 73 (14/0070/PA) i ymestyn yr amser i gyflwyno materion a gadwyd yn ôl ar gyfer 07/1454/PA (amlinellol) ei gymeradwyo ar 19/08/2016. Llofnodwyd adran 106 ar 4 Awst 2016. Ymchwilir ymhellach i gyflenwi'r safleoedd hyn drwy gydol y broses o Adolygu'r Cynllun.

3.4 Y cyflenwad tir a oedd ar gael ar gyfer tai ar gyfer y flwyddyn adrodd oedd 5.1 mlynedd, fel y nododd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-2016 (y gofyniad yw 5 mlynedd o gyflenwad tir). Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016-2017 yn cael ei hystyried gan grŵp yr astudiaeth.

3.5 Cyflawnwyd y targed o 15% o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau ac ar gyfer caniatadau eleni. Ni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae gwaith monitro parhaus o ran dangosyddion Tai Fforddiadwy drwy'r Mynegai Monitro Tai Fforddiadwy yn dangos nad oes angen addasu targedau cyfraniadau Tai Fforddiadwy ar hyn o bryd. Caiff hyn ei fonitro dros y chwarter nesaf er mwyn gweld a gyrhaeddir y trothwy ar gyfer cynnal adolygiad.

3.6 Dwysedd – mae dwysedd ychydig uwchlaw'r targed o ran dyraniadau, hap-safleoedd trefol, a hap-safleoedd trefi ffocws ac aneddiadau gwledig, sef 62 a 27 annedd fesul hectar o gymharu â tharged o 35 a 25, sydd dipyn yn uwch na'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach.

**Cyflogaeth**

3.7 Ar y cyfan, cyflawnir targedau monitro, gyda llawer o safleoedd ac adeiladau wedi'u datblygu at ddibenion cyflogaeth ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Roedd cyfanswm y tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd 58ha yn fwy yn 2016 nag yn 2013 (y targed oedd 45ha a ddatblygwyd erbyn 2017). Bu'r cynnydd tuag at gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol yn amrywiol ac felly mae'n bwysig parhau i fonitro cynnydd tuag at hynny. Ni ddatblygwyd y tri dyraniad defnydd cymysg, er bod gan un ganiatâd cynllunio heb ei weithredu ar gyfer cynllun uned waith / byw.

3.8 Mae Arolwg Tir Cyflogaeth 2016 yn cofnodi cynnydd yn yr arwynebedd safleoedd llinell sylfaenol o 1137 i 1195 hectar rhwng 2013 a 2016. Bu cynnydd yn arwynebedd safleoedd a ddefnyddir o 945 i 976 hectar rhwng 2013 a 2016. Cynyddodd yr arwynebedd gwag ar safleoedd yn cael eu

monitro o 193 i 218 hectar rhwng 2013 a 2016. . Mae manylion pellach, gan gynnwys dadgyfuno gofodol a dosbarthiadau defnyddiau, ar gael yn yr adroddiad cyhoeddedig.

3.9 Nid oes caniatâd eto ar safle Cyflogaeth Strategol Blackbridge. Mae tir yn Waterston a Blackbridge (a fu'n eiddo i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru gynt ac sy'n cynnwys y safle Strategol) wedi cael ei werthu i gwmni Egnedol, sy'n cynnig datblygu cyfleuster ynni biomas. Dosbarthwyd y cais cynllunio yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ac felly caiff y cais ei bennu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru. Disgwylir penderfyniad yn ddiweddarach yn 2017.

3.10 Ym Mharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro yn Noc Penfro, rhoddwyd caniatâd ar gyfer safle swyddfeydd modiwlar ar dir ger Warrior Way, Doc Penfro, y nodwyd ei fod wedi'i gwblhau yn AMB 3. Ni chafwyd cynigion pellach ar y safle hwn yn ystod blwyddyn 4 yr AMB.

3.11 Ym Mharc Busnes Llwynhelyg, yn ystod blwyddyn 4 yr AMB rhoddwyd caniatâd amodol ar gyfer uned storio ffrâm dur ar gyfer ffenestri UPVC a chanolfan ffitrwydd dan do. Gwrthodwyd cynnig pellach ar gyfer canolfan weithgareddau. Hefyd cafwyd cais i amrywio amodau a gymeradwywyd yn ymwneud â chydsyniad yr addoldy a gymeradwywyd yn flaenorol.

3.12 Ar Safle Cyflogaeth Strategol Trecŵn, ni chafwyd unrhyw gynigion pellach yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Ni weithredwyd cydsyniadau cynharach ar gyfer safle oriau brig sy'n defnyddio tanwydd diesel (yn yr ardal ddynodedig) a gorsaf bŵer tanwydd coed (i greu ynni o fiomas) eto.

**Sipsiwn a Theithwyr**

3.13 Caniatawyd 9 llain ychwanegol yn ystod cyfnod 4 yr AMB. Caniatawyd cyfanswm o 35 ers yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2010.

3.14 Paratowyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gan y Cyngor Sir, yn unol â'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Ddeddf Tai (Cymru) ac a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn 2016. Dengys yr Asesiad fod angen 32 o leiniau preswyl, yn ogystal â dwy iard Siewmyn Teithio erbyn diwedd 2020 – sy'n llai o angen na'r hyn a nodwyd yn yr asesiad blaenorol.

**Seilwaith**

**a. Penderfyniadau Ynni Adnewyddadwy**

3.15 Caniatawyd 6.11 MW o gapasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol ym mlwyddyn 4 yr AMB. Mae hyn yn cymharu â 34.77MW a ganiatawyd yn ystod blwyddyn 3 yr AMB, 68.6 MW a ganiatawyd yn ystod blwyddyn 2 yr AMB a

108.4MW a ganiatwyd yn ystod blwyddyn 1 yr AMB. Ym mlwyddyn 4 yr AMB, roedd pedwar cais am baneli solar lle na roddwyd gwybodaeth am gapasiti.

3.16 Ym mlwyddyn 4 yr AMB, cymharol brin oedd y ceisiadau ar gyfer cynigion ynni adnewyddadwy newydd. Yn hytrach, roedd y rhan fwyaf o geisiadau yn gynigion a oedd yn ymwneud â chynlluniau a gafodd gydsyniad yn flaenorol, gan gynnwys amryw geisiadau amrywio amodau, diddymu amodau, diwygiadau amherthnasol, diwygiadau eraill a dileu amodau. O'r cynigion newydd, roedd pedwar penderfyniad apêl ynghylch cynigion tyrbinau gwynt a wrthodwyd yn wreiddiol mewn cyfnod AMB cynharach (caniatawyd tri, gwrthodwyd un), un penderfyniad ynghylch cynnig tyrbin gwynt newydd (gwrthodwyd), un penderfyniad ynghylch cynnig fferm solar (cymeradwywyd yn amodol), saith penderfyniad ynghylch gosod paneli / araeau PV solar (a gymeradwywyd yn amodol i gyd) ac un penderfyniad ynghylch cynllun trydan dŵr (cymeradwywyd yn amodol).

***Capasiti ynni adnewyddadwy sy'n cael caniatâd cynllunio (capasiti MW)***




***Canlyniadau ceisiadau ynni adnewyddadwy (nifer y ceisiadau, gan ystyried penderfyniadau apeliadau)***




**b. Trafnidiaeth – Cynnydd o ran cyflawni cynlluniau wedi'u diogelu**

3.17 Cwblhawyd y rhan fwyaf o elfennau Llwybr Strategol y De erbyn diwedd 2016/17. Mae'r ffordd gyswllt / cylchfan newydd yn Maidenwells wedi cyrraedd y cam gweithredu, gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Tachwedd 2016 (cafodd y ffordd gyswllt newydd ei hagor yn ystod haf 2017, yn ystod blwyddyn 5 yr AMB).

3.18 Yn Abergwaun, dechreuodd prosiect Heol Fawr yr A40 i'r A487 y Wesh (Chimneys Link) ym mis Ebrill 2016, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2019. Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Mae gwaith dylunio manwl a cham cychwynnol prosiect Gwella Mynediad i Ganol Tref Abergwaun wrthi'n mynd rhagddynt.

3.19 Cafwyd Grant Cronfa Drafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18, fel bod modd datblygu cynnig Llwybr Cyd-ddefnyddio Hwlffordd i Arberth. Bydd hyn yn galluogi adeiladu'r llwybr o Eagle Lodge i Bentref Gwyliau Bluestone, gan gynnwys adeiladu maes parcio newydd yn Eagle Lodge, yn amodol ar gwblhau prosesau statudol. Hefyd, bydd SUSTRANS yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o lwybr Arberth i Hwlffordd, fel rhan o brosiect wedi'i ariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gyda'r gwaith cychwynnol yn dechrau yn ystod 2016/17.

3.20 Addaswyd manylion prosiect Uwchgynllun Hwlffordd yn ystod 2016/17. Caiff Cylchfan Sgwâr Bridgend ei ailfarcio yn 2017/18, er mwyn gwella llif traffig. Bydd prosiect mynediad a gwella Canol y Dref (Sgwâr Swan) yn dechrau ar ôl cwblhau cynllun newydd y Llyfrgell (a adeiledir ar hyn o bryd). Mae cynnig newydd i gynnal astudiaeth ddichonoldeb gyda'r nod o fynd ati i wella maes parcio aml-lawr Hwlffordd, ynghyd â gwella mynediad i'r orsaf fysiau, fel rhan o waith ailddatblygu ehangach i Ganol y Dref a ddatblygir yn 2017/18.

3.21 Cafodd cynlluniau amrywiol a ddiogelwyd gan y CDLl eu cwblhau'n gynharach yn ystod cyfnod y Cynllun, gyda manylion wedi'u rhestru mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol cynharach. Mae gweithredu'r cynlluniau a ddiogelwyd sy'n weddill yn dibynnu ar sicrhau cyllid.

**c. Gwastraff**

3.22 Cafodd 1.16 ha o gapasiti gwastraff newydd ei ganiatáu, ar dri safle, yn ystod blwyddyn 4 yr AMB.

3.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer y de-orllewin. Mae'r rhain yn Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Interim ar gyfer De-orllewin Cymru, dyddiedig mis Mawrth 2015, ac Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer De-orllewin Cymru, ar gyfer 2016. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer paratoi'r adroddiadau hyn ac mae Cyngor Sir Penfro yn un o'r sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth i'w chynnwys ynddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff 2017. Ceir rhagor o fanylion ar wefan Gwastraff Nodyn Cyngor Technegol 21 Llywodraeth Cymru.

**d. Mwynau**

3.24 Yn ystod blwyddyn 4 yr AMB, cafodd cynnig i ymestyn yr ardal echdynnu yn Chwarel Lechi Fferm Penlan, Bethesda ei gymeradwyo'n amodol.

3.25 Ar y cyfan, mae lefelau da o adnoddau craig galed ar gael yn ardal gynllunio'r Cyngor.

3.25 Ni chaiff unrhyw dywod na gro eu cynhyrchu ar hyn o bryd yn y rhan o Sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, er bod symiau cymedrol o dywod a gro morol yn cael eu dadlwytho mewn glanfa yn Nociard Penfro.

3.27 Mae gweithgarwch cynhyrchu tywod a gro presennol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, er y disgwylir iddo ddod i ben yn y pen draw. Dim ond o dan rai amgylchiadau eithriadol y caniateir cynhyrchu mwynhau ymhellach yn y Parc Cenedlaethol, felly rhaid ceisio ffynonellau cynhyrchu tiriogaethol amgen.

3.28 Mae'r trothwy monitro ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd o ran darpariaeth tywod a gro. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo i ymdrin â'r mater hwn, gan fod Datganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru ar gyfer Agregau yn nodi hyn fel mater i awdurdodau'r hen Ddyfed ei ddatrys ar y cyd.

**e. Manwerthu**

3.29 Mae'r problemau economaidd ehangach a wynebir gan Ganol Trefi wedi'u hamlygu drwy waith monitro gyda chyfraddau unedau gwag uchel iawn yng nghanol rhai trefi. Mae'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer ailddatblygu (mwy o arwynebedd llawr) siop Lidl bresennol sydd ar gyrion canol Hwlffordd wedi golygu bod y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach i fanwerthu wedi'i gyrraedd ar gyfer dau ddangosydd ychwanegol.

3.30 0% o arwynebedd A1, A2 a A3 datblygiadau mawr a ganiateir yng Nghanol Trefi – mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd. Roedd y caniatâd a roddwyd ar gyfer datblygiad manwerthu mawr y tu allan i Ganol Tref ar gyfer Lidl yn Hwlffordd a nodir uchod a fodlonodd y profion polisi gofynnol ar gyfer datblygiadau ar gyrion tref.

3.31 Cafwyd lleihad bach iawn yn nifer y siopau betio, a chynhaliwyd nifer y siopau elusennol.

3.32 Roedd cyfraddau unedau gwag yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) yn Hwlffordd, Doc Penfro, Aberdaugleddau ac Abergwaun.

3.33 Ffryntiadau manwerthu – mae gan Abergwaun, Arberth a Phenfro grynodiad o unedau A3.33 sydd islaw canran y targed.

**f. Twristiaeth**

3.34 Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau a oedd yn groes i Bolisïau Twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro.

3.35 Cymeradwywyd cyfanswm o 25 o geisiadau ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro (gostyngiad bach o gymharu â'r 30 o geisiadau a gymeradwywyd yn ystod cyfnod 3 yr AMB). Roedd y cymeradwyaethau hyn yn cynnwys y caniatadau canlynol ar gyfer llety twristiaeth:

- Rhoddwyd caniatâd i adeiladu parc ceblau tonfyrddio â 4 tŵr â cheblau, gan gynnwys llyn, clwb a maes parcio yn Cross Hands, Arberth – (15/0771/PA).
- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer corlan anifeiliaid newydd yn Folly Farm, Begeli, gan newid y defnydd tir o amaethyddol i hamdden (16/0015/PA).
- Cyfanswm o 3 newid defnydd i lety ffurflen B a llety B,
- roedd 1 cais yn ymwneud â'r newid defnydd a 2 gais i drosi unedau gwyliau.

Roeddent hefyd yn cynnwys y caniatadau canlynol ar gyfer datblygu carafannau:

- roedd 1 cais yn caniatáu amrywio amod i gynyddu nifer y lleiniau ar gyfer carafannau teithiol o 15 i 22.
- roedd 7 cais yn caniatáu uwchraddio meysydd carafannau a chyfleusterau gwersylla, gan gynnwys ymestyn safleoedd.

# Polisïau sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach

3.36 Mae'r meysydd polisi canlynol wedi cyrraedd y trothwy a nodwyd ar gyfer ymchwiliad pellach:

*Canol Trefi*

**Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) a ganiateir yng Nghanol Trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir.**

**Lefel yr arwynebedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN. 15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm).**

**Newid defnyddiau A1 (nifer yr unedau a'u harwynebedd ar gyfer manwerthu cynradd) ffryntiadau – islaw'r targed yn Abergwaun, Arberth a Phenfro.**

**Canran yr unedau gwag llawr gwaelod yng Nghanol Trefi. Y trothwy yw os yw'n 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) – Aberdaugleddau, Doc Penfro a Hwlffordd.**

3.37 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi un dangosydd craidd ar gyfer CDLlau fel faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir yng nghanol trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. Mae CSP wedi dehongli hwn i gwmpasu dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3. Yn ystod cyfnod yr AMB roedd 0% o holl arwynebedd datblygiadau A1, A2 ac A3 mawr a ganiatawyd wedi'i leoli yng Nghanol Trefi neu ar safle manwerthu a neilltuwyd, o gyfanswm o 1,276 metr sgwâr o arwynebedd llawr GIA ychwanegol a ganiatawyd. (Cais perthnasol 16/0376/PA).

3.38 Gan mai un cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd y tu allan i Ganol Trefi, mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach mewn perthynas â'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Yn achos y cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd, y manylion oedd:

Cais 16/0376/PA – ailddatblygiad gan gynyddu arwynebedd llawr masnachu 544 metr sgwâr mewn siop Lidl bresennol ar Perrotts Road, Hwlffordd.

Bodlonodd y cais feini prawf GN.14 a phrawf y Polisi Cynllunio Cenedlaethol drwy ddangos angen ansoddol am y cynnig, bod y cynnig yn bodloni'r prawf cymalog ar gyfer datblygiadau manwerthu ac mai cyfyngedig fyddai'r effaith ar ganol tref Hwlffordd. I gloi, roedd yr unig gais am ddatblygiad mawr a gymeradwywyd y tu allan i Ganol Trefi yn ystod cyfnod yr AMB yn bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a pholisïau'r CDLl. Nid yw'r cais hwn yn nodi unrhyw broblem benodol gyda pholisïau'r CDLl ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

3.39 O ran y dangosydd pellach ynglŷn â lefel arwynebedd datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN3.39 Manwerthu ar Raddfa Fach neu G.10 Siôp Fferm, mae CSP wedi ystyried pob un o'r ceisiadau hynny a arweiniodd at ennill net o ran arwynebedd dosbarth defnydd A1, y caniatawyd 100% ohonynt y tu allan i ganol trefi. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys caniatâd ar gyfer siop fwyd Lidl yn Hwlffordd a nodir uchod, a chaniatâd amlinellol ar gyfer siop nwyddau swmpus ar London Road, Doc Penfro (Cais 16/0582/PA) am arwynebedd llawr masnachu o 844 metr sgwâr (ac eithrio'r cynlluniau hynny a gymeradwywyd o dan GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 Siopau Fferm). Nodir y rhesymau dros roi caniatâd uchod ac er i'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach gael ei gyrraedd, mae'r ceisiadau yn cydymffurfio â pholisi CDLl, ac nid ystyrir bod angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

3.40 Mae lefelau unedau gwag uwchlaw lefelau cenedlaethol yn Hwlffordd, Doc Penfro, Aberdaugleddau ac Abergwaun. Mae gan Aberdaugleddau, Hwlffordd a Doc Penfro ganran sydd dros 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae cyfraddau unedau gwag Hwlffordd yn uwch dros dro oherwydd cynllun ailddatblygu. O ran ffryntiadau manwerthu cynradd – mae gan Abergwaun, Arberth a Phenfro grynodiad o unedau A1 sy'n islaw canran y targed. Bwriedir parhau i fonitro hyn.

3.41 Mae llawer o Ganol Trefi ledled y DU yn wynebu problemau ar hyn, sy'n adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'r Cyngor a nifer o sefydliadau eraill yn datblygu amrywiaeth o gamau gweithredu i gynorthwyo yn hyn o beth. Cynhaliodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economaidd y Cyngor adolygiad manwl o ganol trefi yn 2012/13 ac roedd ei argymhellion yn cefnogi creu chwe Thîm Tref ledled y Sir. Mae'r Timau Tref hyn wedi datblygu cynlluniau gweithredu i nodi ymyriadau a all gael eu rhoi ar waith gyda phartneriaid. Ym mis Ebrill 2015 cytunodd y Cabinet i adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed gan y Timau Tref a datblygu cyfres o uwchgynlluniau. Mae prosiect cyntaf uwchgynllun Hwlffordd (Awst 2016) i adleoli a datblygu llyfrgell i'r 21ain Ganrif, oriel a chanolfan ymwelwyr yn adeilad presennol y farchnad yng nghanol Hwlffordd wedi dechrau. Nododd Uwchgynllun Hwlffordd weledigaeth a phrosiectau blaenllaw ar gyfer canol tref Hwlffordd gan fanteisio ar y coridor afon, gan gynnwys ailddatblygu'r Farchnad sydd ar waith, canolfan siopa Eastern Quayside a darparu Canolfan Dreftadaeth. Caiff astudiaethau uwchgynlluniau canol trefi eraill eu datblygu maes o law.

3.42 Yn Aberdaugleddau, cynigiodd Awdurdod y Porthladd gynllun defnydd cymysg ar gyfer marina sy'n cynnwys defnyddiau manwerthu masnachol a physgota yn ogystal â 3.42 o anheddau preswyl, a hyd at 70 o angorfeydd ychwanegol yn y marina. Argymhellodd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015, ond nid yw'r cytundeb A.106 wedi'i lofnodi eto.

3.43 Mae Doc Penfro wedi cael budd o Fenter Treftadaeth Treflun a chynllun grantiau eiddo masnachol a gefnogir gan arian yr UE. Mae Aberdaugleddau a Phenfro wedi cael budd o Gynllun Benthyciadau Canol Tref, a ariennir o dan Fenter 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' Llywodraeth Cymru a rhydd fenthyciadau di-log er mwyn helpu i leihau nifer y safleoedd ac eiddo sy'n wag ac nas defnyddir digon. Roedd angen i brosiectau ddechrau cyn mis Medi 2016.

3.44 Yn ogystal â mentrau adfywio, yn 3.44/2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Rhyddhad Manwerthu (a weinyddir gan y Cyngor) a gynigiodd

gyfraniad ariannol o hyd at £1k tuag at ardrethi busnes ar gyfer eiddo manwerthu a feddiennir sydd â gwerth ardrethadwy o £50k neu lai yn y flwyddyn ariannol 2014/2015. Mae'r un cynllun wedi cael ei estyn i 2015-16 (hyd at 31 Mawrth 2016) gyda chynnydd yn y budd mwyaf i £1,500 a'r nod yw cynorthwyo manwerthwyr, busnesau bwyd a diod llai o faint. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Gynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr ym mis Rhagfyr 2017.

3.45 Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro dangosyddion manwerthu yn fanwl a bydd yn gweithio gyda chydweithwyr Adfywio i gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r uwchgynlluniau.

*Darparu Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr*

**40 o leiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr i'w darparu erbyn diwedd 2015. Bydd ymchwiliad pellach os caniateir llai na 40 erbyn diwedd 2015.**

3.46 O ran lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, ers i'r Asesiad gwreiddiol o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gynnal yn 2010, cafodd 35 o leiniau ychwanegol ganiatâd cynllunio. Felly, nid yw'r targed o ddarparu 40 o leiniau ychwanegol erbyn diwedd 2015 wedi'i gyflawni, sy'n golygu y cyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae'r mwyafrif llethol o leiniau a ddarparwyd ers 2010 wedi cael caniatâd ar safleoedd preifat (ac eithrio 3), gan ddangos bod polisïau'r CDLl yn gweithio'n effeithiol o ran galluogi darpariaeth breifat. Arweiniodd penderfyniad cychwynnol Llywodraeth Cymru i wrthod dadgofrestru tir comin yn Kingsmoor, Cilgeti at oedi o ran cyflawni'r dyraniad sylweddol hwn (sy'n debygol o ddarparu 15 o leiniau). Cafwyd cymeradwyaeth i ddadgofrestru ac amgáu'r Tir Comin o'r diwedd ym mis Rhagfyr 2015 ac mae gwaith ar gais cynllunio a chais am arian grant yn mynd rhagddo er mwyn cefnogi'r estyniad hwn. Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu hyn a disgwylir cais am ganiatâd cynllunio erbyn diwedd 2017.

3.47 Paratowyd Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2015, yn unol â'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Ddeddf Tai (Cymru) ac a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn 2016. Dengys fod angen 32 o leiniau preswyl, yn ogystal â dwy iard Siewmyn Teithio erbyn diwedd 2020 – sy'n llai o angen na'r hyn a nodwyd yn yr asesiad blaenorol. Mae'r angen is hwn yn awgrymu bod nifer y lleiniau preifat sy'n cael caniatâd yn cael effaith ar lefel angen yn sir Benfro. O ran y CDLl, mae'r dyraniadau a'r polisïau presennol yn ei gwneud yn bosibl i safleoedd preifat a safleoedd a neilltuwyd gael caniatâd ac ar y sail hon nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

*Mwynau*

**(Craidd) Faint o agregau cynradd a dynnir o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y'i nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.**

**Bydd angen ymchwiliad pellach os bydd y banc tir yn gollwng i 12 mlynedd (craig galed) neu 9 mlynedd (tywod a gro), er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun. Monitro tunelli a ganiateir**.

3.48 Gan edrych ar ddarpariaeth CDLl y Cyngor:

- Mae digonedd o graig galed wrth gefn, sy'n ddigon ymhell y tu hwnt i gyfnod y Cynllun presennol.
- O ran tywod a gro, mae'r ddarpariaeth yn ddigonol hyd at 2021. Y tu hwnt i hynny bydd yn gynyddol bwysig dod o hyd i safleoedd cynhyrchu daearol newydd yn ne-orllewin Cymru. Bydd angen i hyn gael ei ystyried mewn cyd-destun rhanbarthol er mwyn adlewyrchu gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau i Dde Cymru. Mae'r CDLl yn nodi ardal chwilio ar gyfer safleoedd cynhyrchu o fewn ffiniau ardal gynllunio'r Cyngor. Mae hyn yn seiliedig ar fap adnoddau mwynau Arolwg Daearegol Prydain.

3.49 Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud drwy'r grŵp rhanbarthol yn ystod blynyddoedd 2, 3 a 4 yr AMB a bydd yn parhau. Bydd angen arweiniad gan weithredwyr mwynau er mwyn nodi safleoedd tywod a gro daearol newydd, gan mai dim ond hwy sy'n meddu ar yr arbenigedd technegol i gynghori ar ba safleoedd sydd â photensial cynhyrchu yn y dyfodol.

*Tai*

**(Craidd) Y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai (TAN 1) – 5 mlynedd o gyflenwad tir. Y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach os bydd y cyflenwad tir o dan 5.5 mlynedd.**

3.50 Yn ystod y cyfnod monitro roedd gan CSP 5.1 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai, yn seiliedig ar y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) ar gyfer 5.1-16 (Ebrill 2016 dyddiad llinell sylfaen), sy'n cyflawni'r targed a bennwyd gan yr AMB (5 mlynedd o gyflenwad tir). Fodd bynnag, gan fod y cyflenwad tir islaw 5.5 mlynedd, mae'n is na throthwy'r Cynllun ar gyfer ymchwiliad pellach.

3.51 Mae TAN 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau allu dangos 5 mlynedd o gyflenwad tir. Ceir targed hefyd yn yr AMB. Mae gan yr Awdurdod 5.1 mlynedd o gyflenwad tir ac felly mae'n cyflawni'r targed a bennwyd gan y Cynllun a gofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

3.52 Pennwyd y targed ar gyfer ymchwiliad pellach yn yr AMB ar lefel o 5.5 mlynedd, er mwyn sicrhau y gall CSP fodloni'r gofyniad o 5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai yn y dyfodol. Mae gwaith ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014 a 2015 ynghyd â'r gwaith presennol wedi nodi nifer o safleoedd lle y bydd gwelliannau wedi'u rhaglennu i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn cynyddu cyflenwad tir 5 mlynedd yr Awdurdod, ynghyd â safleoedd datblygu ychwanegol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y banc tir 5 mlynedd oherwydd ansicrwydd datblygwyr, sy'n barod i gael eu datblygu mewn ymateb i'r galw.

**(Craidd) Faint o ddatblygiadau tai a gafodd ganiatâd ac a adeiladwyd ar safleoedd tai wedi'u dyrannu fel canran o gyfanswm y tai a ddyrannwyd ac fel canran o gyfanswm y datblygiadau tai a gafodd ganiatâd.**

3.53 Y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach yw os bydd caniatadau ar safleoedd wedi'u dyrannu o dan 60% o'r cyfanswm ym mis Mawrth 2017 – cafodd 59% o ddyraniadau eu hadeiladu fel canran o'r cyfanswm o gwblhawyd felly cyrhaeddwyd y trothwy. Mae'r trothwy hwn ychydig yn is na'r targed. Fel y trafodir isod, bu'r cynnydd o ran tri dyraniad tai allweddol yn arafach na'r disgwyl a chaiff y tri safle hyn eu monitro ymhellach drwy brosesau'r Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac Adolygiad, gydag unrhyw wybodaeth yn cael ei rhoi yn AMB 5.

**Cynnydd tuag at gyflawni ar y safleoedd tai canlynol: a) Slade Lane (De), Hwlffordd, b) Slade Lane (Gogledd), Hwlffordd, c) Maesgwyn, Abergwaun, d) Shoals Hook Lane – trothwy wedi'i gyrraedd ar gyfer a) c) a d) gan nad yw'r gwaith datblygu wedi dechrau yn 2017, er y cafwyd caniatâd ar gyfer a) a c).**

3.54 Caiff gwybodaeth am hynt y safleoedd hyn ei monitro drwy baratoi y Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a CDLl 2 ac ystyrir a gaiff y safleoedd hyn eu cynnal fel dyraniadau o fewn CDLl2.

**(Craidd) Nifer yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad agored ychwanegol net a adeiladwyd (TAN 2). Cyrhaeddwyd y trothwy gan fod y nifer gyffredinol a gwblhawyd o dan 50% o'r targed yn 2017. Fodd bynnag, cyflawnwyd y targed tai fforddiadwy.**

3.55 Parheir i fonitro'r broses gyflenwi yn AMB 5. Caiff dadansoddiad pellach o ragolygon amcanestyniadau tai is na'r disgwyl ei asesu fel rhan o'r gwaith o baratoi CDLl2.

**Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd o fewn ardaloedd porthladdoedd a nodwyd (Blackbridge – Aberdaugleddau; Wdig – hen safle ffatri Dewhirst; ac Wdig – Parrog). Trothwy ar gyfer gweithredu pellach – 50% heb ganiatâd cynllunio wrth Adolygu'r Cynllun (2017) – fe'i cyrhaeddwyd**

**oherwydd erbyn 31 Mawrth 2017 nid oedd unrhyw ganiatadau cyflogaeth cyfredol yn Blackbridge nac Wdig – Parrog ac roedd y rhai'n ymwneud â hen Ffatri Dewhirst (hefyd yn Wdig) ar gyfer defnydd heblaw am gyflogaeth.**

3.56 Adroddir ar waith monitro pellach yn AMB 5.

**Cynnydd tuag at ddarparu safleoedd cyflogaeth strategol (Blackbridge, Aberdaugleddau; Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro; Parc Busnes Llwynhelyg, Hwlffordd; a Threcŵn). Ar safle Trecŵn, cyrhaeddwyd y trothwy am nad oedd y gwaith datblygu wedi dechrau ar 31 Mawrth 2017. (Ar y tri safle arall, ni chyrhaeddwyd y trothwyon sy'n benodol i safle).**

3.57 Adroddir ar waith monitro pellach yn AMB 3.57.

**Cynnydd tuag at ddarparu safleoedd defnydd cymysg (Old Hakin Road, Hwlffordd; Iard Arnold, Johnston; a Dale Road, Hubberston).**

3.58 Gweithredwyd sbardun ar gyfer gweithredu pellach – nid oes gan safleoedd ganiatâd cynllunio erbyn Adolygu'r Cynllun (3.58) – ar gyfer dau safle am nad oedd caniatadau defnydd cymysg cyfredol ar gyfer Iard Arnold na Dale Road ar 31 Mawrth 2017. Adroddir ar waith monitro pellach yn AMB 5.

*Tirwedd*

**Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.1 – nod diogelu maen prawf 3.**

3.59 Cafodd un cais ei gymeradwyo er ei fod yn groes i ofynion Polisi GN.59, roedd maen prawf 3 yn ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r nifer yn ystod AMB 2 ac yn is na'r cais a gwympodd yn ystod AMB 3. Efallai y bydd angen ailwerthuso geiriad manwl GN.1 (3) wrth adolygu'r Cynllun o ran effeithiau andwyol ar gymeriad, ansawdd ac amrywiaeth y dirwedd sy'n fân achosion neu'n fach. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r mater hwn.

*Yr Amgylchedd Hanesyddol*

**Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd yn groes i Bolisi GN.38.**

3.60 Nid yw'r trothwy ar gyfer caniatadau, caniatadau adeiladau rhestredig a chaniatadau henebion cofrestredig a roddwyd yn groes i Bolisi GN3.60 wedi cael ei gyrraedd. Nodwyd na chafodd unrhyw geisiadau eu cymeradwyo er eu bod yn groes i GN.38. Mae geiriad GN.38 yn golygu bod yn rhaid i gynnig gael ei ystyried yn un sy'n groes i'r polisi hyd yn oed os mai cyfyngedig yw'r

effaith niweidiol a nodwyd. Bydd y geiriad hwn yn cael ei ailystyried ar adeg adolygu'r, er mwyn sicrhau mai dim ond y cynigion hynny sydd ag effaith niweidiol sylweddol y bernir eu bod yn groes i'r polisi.

# 4 Crynodeb o Ganlyniadau Monitro Arfarniadau o Gynaliadwyedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

4.1. Mae'r gwaith monitro parhaus ar berfformiad y cynllun yn erbyn amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd yn un o ofynion adroddiad yr AoG a'r CDLl. Mae gwaith monitro'r AoG wedi'i integreiddio â gweithgarwch arall yr AMB.

4.2. Mae prif effeithiau'r cynllun yn gadarnhaol o'u mesur yn erbyn Amcanion yr AoG.

4.3. Dangosir fframwaith monitro'r AoG yn Atodiad 3 a cheir fframwaith monitro'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Atodiad 4.

4.4. Nodwyd dangosyddion posibl drwy gydol proses yr AoG a gynhaliwyd ar y cyd â'r gwaith o baratoi'r cynllun oherwydd cydnabuwyd y bydd angen adolygu'r fframwaith monitro o bosibl yn y dyfodol. Y dangosyddion a nodwyd yn Adroddiad yr AoG yw'r sail dros yr AMB, gan nodi bod yr Amcanion hyn yn yr AoG yn rhai dyheadol, gyda'r posibilrwydd y cânt eu hadolygu yn ystod oes y cynllun. Mae'r dangosyddion a nodwyd yn adlewyrchu amrywiaeth o nodweddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ardal y cynllun.

4.5. Yn ystod y rhan gynnar hon o gyfnod y cynllun, ni fydd perfformiad y cynllun yn erbyn amcanion cynaliadwyedd yn ddiffiniol. Bydd gwaith monitro'r AoG yn rhoi amcan o duedd gyffredinol effeithiau lle mae data ar gael, e.e. cadarnhaol / negyddol / dim newid. Mae tueddiadau yn dechrau dod i'r amlwg dros y blynyddoedd i ddod a'r casgliad yw bod effaith y cynllun ar amcanion AoG, ac felly mae'r agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar ardal y cynllun yn gadarnhaol ar y cyfan.

4.6. Mae CSP wedi mynd ati i fonitro mewn perthynas â'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd drwy nodi'r polisïau hynny a nodwyd yn flaenorol, wrth baratoi'r cynllun, fel rhai sy'n gofyn am gael eu sgrinio ar lefel prosiect (o gymharu â lefel cynllun) a monitro a yw'r broses sgrinio wedi cael ei chynnal ar unrhyw geisiadau ar gyfer y rhain lle mae datblygiad wedi mynd rhagddo. Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn nodi'r broses sgrinio a gynhelir lle y nodwyd bod angen sgrinio ar lefel prosiect a lle mae datblygiad wedi cyrraedd cam cais cynllunio yn ystod cyfnod adrodd yr AMB. Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio gan Ecolegydd Cynllunio CSP, a lle bo effaith bosibl ar safle Ewropeaidd, mae proses sgrinio ffurfiol wedi cael ei chynnal.

4.7. Cyhoeddir data Llywodraeth Cymru ar gyfer Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar lefel Cymru, a dim ond rhai dangosyddion sydd ar gael ar raddfa sir Benfro neu dde-orllewin Cymru. Cyhoeddir y gweddill ar lefel Cymru neu Gymru a'r DU. Y data ar gyfer 2015 oedd y cyhoeddiad ystadegol terfynol gan ei fod wedi'i ddisodli gan ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r dangosyddion hyn wedi cael eu cyhoeddi ond nid adroddwyd arnynt eto. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol gyda chynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bydd peth o'r wybodaeth hon yn trosi i ardal ofodol y cynllun, ond dim ond ar lefel genedlaethol y bydd peth data ar gael.

4.8. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi prif effeithiau'r cynllun yn erbyn Amcanion yr AoG, gan ddefnyddio dangosydd 'goleuadau traffig'.

Gwyrdd (G) - cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, amcanion yn cael eu cyflawni

Oren (O) – nid yw amcanion yn cael eu cyflawni, dim pryderon

Coch (C) – nid yw amcanion yn cael eu cyflawni, pryderon ynglŷn ag amcanion/polisi.

4.9. Gan mai hwn yw pedwerydd AMB y CDLl, mae'r wybodaeth yn fan cychwyn i asesu'r cynllun o'r llinell sylfaen. Bydd adroddiadau monitro dilynol yn darparu trothwyon ar gyfer ymchwiliad pellach ac a oes angen adolygu'r cynllun cyn 2017. Fodd bynnag, nid oes angen adolygu'r cynllun yn gynnar ar sail amcanion AoG/AAA yn AMB 4. Paratoir y gwaith adolygu gan mai yn 2021 y daw'r cynllun cyfredol i ben.

| | **Perfformiad** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcanion yr AoG** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** |
| 1. Datblygu a chynnal strwythur poblogaeth cytbwys | O | O | O | O |
| 2. Hyrwyddo iechyd a llesiant pobl drwy ffordd o fyw iach a mynediad at ofal iechyd a chyfleoedd hamdden ac amgylchedd glân ac iach. | G | G | G | G |
| 3. Gwella cyfleoedd addysg i wella'r sgiliau a'r sylfaen wybodaeth | G | G | G | G |
| 4. Lleihau'r angen i deithio i'r eithaf ac annog dulliau trafnidiaeth cynaliadwy | G | G | G | G |
| 5. Darparu amrywiaeth o dai o safon uchel, gan gynnwys tai fforddiadwy i | G | O | O | O |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ddiwallu anghenion lleol.<br>6. Creu cymunedau diogel, bywiog a chydlynol sydd â mynediad gwell at wasanaethau a chyfleusterau allweddol.<br>7. Diogelu a gwella rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru. | | | | |
| 8. Rhoi amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da sy'n hygyrch i bob rhan o'r boblogaeth.<br>9. Cefnogi economi leol gynaliadwy ac amrywiol | O | O | O | O |
| 10. Paratoi ar gyfer cyfraniad sir Benfro at newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith. | G | G | G | G |
| 11. Cynnal a gwella ansawdd aer | O | O | O | O |
| 12. Lleihau faint o wastraff a llygredd a gynhyrchir<br>13. Annog cynhyrchu, defnyddio ac ailddefnyddio adnoddau'n effeithlon. | G | G | G | G |
| 14. Cynnal a diogelu ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol<br>15. Lleihau effeithiau llifogydd a chodiad yn lefel y môr | O | O | O | O |
| 16. Defnyddio tir yn effeithlon a lleihau halogi i'r eithaf<br>17. Diogelu ansawdd a meintiau pridd | G | G | G | G |
| 18. Diogelu a gwella amrywiaeth | G | O | O? | O? |
| 19. Diogelu a gwella'r dirwedd a'r dreftadaeth ddaearegol<br>20. Annog dyluniadau o ansawdd sy'n unigryw i'r ardal leol ac sy'n ategu'r dreftadaeth adeiledig.<br>21. Diogelu a gwella'r dreftadaeth adeiledig a'r amgylchedd hanesyddol | G | G | G | G |

**Cyfyngiadau**

4.10 Dylid nodi bod ffactorau eraill, y tu hwnt i'r CDLl, yn dylanwadu ar berfformiad Amcanion yr AoG.

4.11 Mae amcanion yr AoG yn rhai dyheadol ar y cyfan. Mae rhai data ar gael ar lefel Sir ond nid ydynt wedi'u dadgyfuno ar gyfer ardal y Cynllun. Nid yw rhai data yn ddigon cyfredol nac yn berthnasol. Wrth i'r Cynllun symud ymhellach oddi wrth y llinell sylfaen, mae'n anochel y bydd newidiadau cyd-destunol yn

cyflwyno torbwyntiau mewn data cyfres amser wrth i newidiadau gael eu cyflwyno i'r broses o gasglu data.

4.12 Mae'r gwaith o fonitro perfformiad y cynllun yn erbyn amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd yn un o ofynion adroddiad yr AoG a'r CDLl. Dylai'r gwaith o fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gael ei integreiddio â gweithgarwch arall yr AMB.

4.13 Nodir methodoleg a fframwaith monitro'r AoG yn Atodiad 4.13 a fframwaith monitro'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Atodiadau 4.

**Crynodeb**

4.14 Mae 11 o amcanion yn gadarnhaol, mae 10 yn niwtral ac mae 1 heb ddigon o ddata i bennu ei berfformiad (mae hyn yn ymwneud â bioamrywiaeth – effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd gad nad oes gan CNC ddata ar gyflwr safleoedd).

4.15 I gloi, canfyddir nad yw gwaith monitro'r AoG yn 2016/17 yn codi unrhyw faterion sylweddol eraill sy'n gofyn am gamau gweithredu eraill ar wahân i'r hyn a nodwyd eisoes. O gymharu â 2013/14, 2014/15 a 2015/16 mae hyn yn unol â'r disgwyl, ac mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y llinell sylfaen ar gyfer adroddiadau monitro canlyniadol. Bydd gwaith monitro'r AoG yn parhau i roi gwybodaeth werthfawr am dueddiadau a nodi unrhyw angen am ymyrryd, gan gynnwys adolygiadau o bolisïau.

4.16 Ni nodwyd unrhyw fesurau lliniaru ar y cam hwn, ond bydd angen monitro dangosyddion ar gyfer poblogaeth, ansawdd dŵr (Parthau Perygl Nitradau), cyflogaeth a'r economi yng ngwaith monitro'r AoG yn y dyfodol, ochr yn ochr â gwaith monitro'r CDLl yn y dyfodol. Nodwyd rhai materion monitro yn AMB y CDLl (gweler Pennod 3 o'r ddogfen hon). Fodd bynnag, gan y bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n fuan gellir mynd i'r afael â'r rhain wrth symud ymlaen.

4.17 Mae gwaith monitro'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dangos bod y broses sgrinio wedi cael ei chynnal ar nifer o gynigion ar lefel prosiect sydd wedi cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod yr AMB. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â'r Asesiad hwn ar hyn o bryd. Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio ar gyfer ei effaith bosibl ar safleoedd Ewropeaidd.

# **5.** Adborth o Ddigwyddiadau Ymgynghori

5.1 Mae'r Llawlyfr ar CDLlau (Llywodraeth Cymru 5.1) yn nodi y dylai barn rhanddeiliaid allweddol gael ei cheisio er mwyn atgyfnerthu'r agweddau ddadansoddol ar yr AMB (adran 9.2). Er mwyn cyflawni hyn cynhaliwyd seminarau ar yr AMB ar 19 Medi 2017 (i Randdeiliaid), ac ar 26 Medi 2017 (i Aelodau Etholedig). Hefyd, cafodd Fforwm Asiantau Sir Benfro ei friffio ar 3 Hydref 2017.

5.2 Yn Seminar y Rhanddeiliaid a Gweithdy'r Aelodau, cyflwynwyd prif gasgliadau AMB 4 y CDLl a chafwyd cyfle i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth. Hefyd rhoddwyd cyflwyniad byr i broses Adolygu'r CDLl.

5.3 Crynhoir yr adborth o seminar y Rhanddeiliaid isod:

- Cadarnhawyd bod y canlyniadau monitro Ynni Adnewyddadwy yn adlewyrchu cynlluniau tiriogaethol yn ardal gynllunio'r Cyngor. Mae cynlluniau morol y tu hwnt i awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor ac adroddir ar gynlluniau'r Parc Cenedlaethol yn AMB Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae rhai cynlluniau microgynhyrchu yn mynd rhagddynt o dan hawliau datblygu a ganiateir ac felly maent hefyd y tu hwnt i gwmpas monitro.
- Dyrannwyd tir gan y CDLl presennol i ymestyn y safle Sipsiwn a Theithwyr ar Dir Comin Kingsmoor, Cilgeti. Bellach diddymwyd hawliau cyffredin ar y safle estynedig a disgwylir cais cynllunio yn ddiweddarach eleni, am 12 o leiniau eraill.
- Mae adeiladwyr tai mawr yn ansicr ynghylch ymrwymo i ddyraniadau tai strategol mawr yn Sir Benfro. Felly, awgryma rhai adeiladwyr tai y dylid, yn y dyfodol, roi mwy o bwyslais ar ddyraniadau bach / canolig eu maint, gyda'r nod o wella'r broses gyflenwi.
- Bydd y CDLl newydd yn ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Disgwylir dechrau hysbysebu am Safleoedd Ymgeisiol yn ystod gwanwyn 2018.
- Mae CSP yn galw am ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy ar y cyd â'r holl gynigion newydd ar gyfer tai marchnad. Ffefrir darpariaeth ar y safle a, lle nad yw hyn yn bosibl, cesglir swm wedi'i ohirio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy yn egluro sut y caiff symiau gohiriedig eu gwario. Y dewis ddull yw gwario yn yr ardal y daw'r taliad ohono – os nad yw hyn yn bosibl defnyddir dull rhaeadru, sy'n ehangu'r ardal chwilio ar gyfer safle prosiect addas.
- Mae dull presennol CSP o ymdrin â chytundebau cyfreithiol 106 yn rhoi blaenoriaeth i gyflenwi tai fforddiadwy. Fodd bynnag, caiff llawer o bethau eraill eu darparu o arian adran 106, nid lleiaf seilwaith hanfodol sydd ei angen i roi prosiectau datblygu ar waith. Bydd adolygiad y CDLl yn gyfle i

adolygu blaenoriaethau adran 106, ond mae'n debygol y bydd tai fforddiadwy yn parhau i gael blaenoriaeth uchel, oherwydd yr angen parhaus am ddarpariaeth newydd yn y sector hwn o'r farchnad dai. Mae CSP yn bwriadu paratoi gwybodaeth bellach am gytundebau cyfreithiol adran 106, yn arbennig gwario symiau gohiriedig, yn y dyfodol agos.

- Parheir i gydweithio ag awdurdodau cynllunio cyfagos – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion. Lle bynnag y bo modd, caiff tystiolaeth ei pharatoi ar y cyd â'r awdurdodau hyn er mwyn helpu i baratoi ail CDLl pob awdurdod. Bydd trefniadau gweithio rhanbarthol yn parhau ac mewn rhai achosion yn cryfhau.
- Mae CSP yn bwriadu cynnal adolygiad o'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn 2018.

5.4 Crynhoir yr adborth o'r seminar i Aelodau isod:

- Mae polisïau tai y CDLl presennol yn seiliedig ar ddisgwyl rhannu darpariaeth 60% trefol / 40% gwledig. Roedd y Cynllun blaenorol, y Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd, yn seiliedig ar raniad 70% trefol / 30% gwledig. Nododd sawl Aelod y byddai'n well ganddo weld darpariaeth oedd yn agosach at 50% trefol / 50% gwledig ar gyfer CDLl 2. Roedd cefnogaeth gref i dwf cynyddrannol / cenedlaethol ymhlith yr Aelodau. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen i hyn gael ei wneud mewn ffordd deg a chyson ac y byddai angen i unrhyw newid mewn dull gweithredu gydweddu â pholisïau tai Llywodraeth Cymru. Byddai angen dangos tystiolaeth gref er mwyn cyfiawnhau unrhyw wyro o bolisi a chyngor Llywodraeth Cymru.
- Yn gysylltiedig â'r ddadl ynghylch dosrannu rhwng ardaloedd trefol a gwledig, mae rhai Aelodau o'r farn bod angen i'r CDLl fod yn fwy hyblyg / caniatáu mwy o ddisgresiwn o ran rhyddhau safleoedd mewnlenwi a thalgrynnu mewn aneddiadau bach iawn, ac mewn clystyrau bach o anheddau nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n aneddiadau, ar gyfer darpariaeth tai er mwyn diwallu anghenion lleol a / neu alw'r farchnad. Ar gyfer CDLl 1, roedd Aelodau wedi gofyn am Hierarchaeth Aneddiadau ac am Ffiniau Aneddiadau, er mwyn rhoi sicrwydd. Mae hyn yn fater y gellir edrych arno o'r newydd ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl, ond gyda'r cafeat y bydd angen i unrhyw newidiadau fod yn unol â pholisi tai Llywodraeth Cymru a chyrraedd safonau gorfodol cynaliadwyedd. Bydd Llywodraeth Cymru am i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gael eu lleoli yn y mannau mwyaf cynaliadwy, sef y trefi fel arfer. Pa bynnag bolisi a fabwysiedir yn y pen draw, rhaid iddo fod yn deg ac yn gyson. Ni all pawb gael rhwydd hynt i ddatblygu tai mewn ardaloedd gwledig / cefn gwlad.
- Gofynnodd sawl Aelod am eglurhad o ystyr y term 'menter wledig' yng nghyd-destun darparu anheddau yng nghefn gwlad fel eithriad i'r dull polisi arferol o gyfyngu.

- Disgwylir, wrth i CDLl 2 ddod i'r amlwg, y cynhelir nifer o Weithdai i Aelodau sy'n seiliedig ar bwnc. Gallai un ohonynt edrych ar faterion tai a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.
- Roedd pryder eang am Ganol Trefi Sir Benfro, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt gyfraddau unedau gwag uchel erbyn hyn. Awgrymodd yr Aelodau y gallai fod angen lleihau canol trefi a ffryntiadau manwerthu sylfaenol ac eilaidd. Byddai hyn yn cynyddu'r cyfle i wneud gwaith trosi preswyl.
- Ceir darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle lle bynnag y bo modd (dyma'r opsiwn a ffefrir). Lle nad yw hyn yn bosibl, mae angen symiau gohiriedig. Felly, mae'r darlun llawn o ran darparu tai fforddiadwy gwirioneddol ac arfaethedig yn gyfuniad o ddarpariaeth ar y safle, caniatadau ar y safle nas gweithredwyd a symiau gohiriedig cyfunol.
- Bydd yr adolygiad o'r CDLl yn gyfle i ailwerthuso lleoliad Ffiniau Aneddiadau ledled ardal y Cynllun. Gall y polisïau sy'n sail i ddarpariaeth tai hefyd gael eu hailarchwilio, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y bydd newid mawr, gan fod y gwaith o gyflenwi unedau marchnad a fforddiadwy wedi bod yn gymharol lwyddiannus o dan CDLl 1 ac mae gan y Cyngor gyflenwad tir ar gyfer tai o 5 mlynedd o hyd.
- Lle cynigir datblygu ar safleoedd parthau llifogydd, rhaid bod yn ofalus. Lle cynigir defnydd perygl mawr, fel tai, efallai na roddir caniatâd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cael cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru mewn achosion o'r fath. Ar y cyfan, nid yw'n syniad lleoli tai newydd, na defnyddiau perygl mawr eraill, mewn parth llifogydd.
- Wrth adolygu'r CDLl, bydd CSP yn defnyddio gwybodaeth Cyfrifiad 2011 am y Gymraeg i lywio ei bolisïau (roedd y CDLl yn seiliedig ar wybodaeth Cyfrifiad 2001 am hyn). Awgrymodd yr Aelodau y byddai'n ddoeth ystyried ystod ehangach o bethau wrth lunio polisi, er enghraifft argaeledd addysg Gymraeg mewn ysgolion lleol.

5.5 Yn Fforwm yr Asiantau ar 3 Hydref, cyflwynwyd golwg dros broses adolygu'r CDLl, gyda'r ymateb isod:

- Nid oes gan y CDLl cyfredol bolisi mewnlenwi / talgrynnu preswyl, yn wahanol i'w ragflaenydd, y CDU. Awgrymwyd y gallai hyn fod wedi lleihau cyflenwad cartrefi yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, dangosodd arolygu y datblygwyd rhyw 7% o dai yng nghefn gwlad (oddi allan i'r anheddau a ddiffiniwyd gan Hierarchaeth Anheddu'r CDLl), sy'n gyfradd uwch na'r disgwyl. Hefyd, codwyd llawer o dai mewn Pentrefi Gwasanaeth. Mae'r datblygiad tai a welwyd yng nghefn gwlad yn adlewyrchiad o addasu adeiladau, Datblygiadau Un Blaned ac Anheddau Mentrau Gwledig. Ar waethaf yr uchod, mae hwn yn faes polisi y bydd CSP yn ei ailgloriannu ar y cyd ag adolygu'r Cynllun, er ei bod yn rhy gynnar i fod yn sicr pa gasgliadau y gellid dod iddynt.
- Meddyliai amryw bod problem sylweddol gyda chyflawni'r darnau mwyaf o dir ar gyfer tai yn y CDLl. Mae canlyniadau'r arolygu'n cadarnhau hyn, yn enwedig o ran safleoedd mawr yn Hwlffordd ac Abergwaun. Awgrymodd

asiantau y gellid cyflawni mwy trwy neilltuo safleoedd mwy cymedrol. Byddai'r rhain yn rhwyddach i adeiladwyr lleol eu dwyn ymlaen, ystyriaeth allweddol oherwydd mai dim ond un adeiladwr tai cenedlaethol sy'n gweithredu yn Sir Benfro. Bu anheddau newydd yn gwerthu'n dda yn ddiweddar ond, gydag adeiladu cyfyngedig o'r newydd ar safleoedd mawr, mae prinder yn ymddangos o eiddo newydd i'w werthu.

- Derbyniwyd cyfanswm cronnol o ryw £140,000 o arian yn lle yn 2016/17. Nododd asiantau mai swm bach oedd hwn ac na fyddai'n darparu llawer o anheddau newydd. Rhaid derbyn hyn, ond dewis y Cyngor yw bod cartrefi fforddiadwy'n cael eu darparu ar y safle. Yn hyn o beth, mae'r cyfraddau cyflenwi ers mabwysiadu'r CDLl wedi bod yn galonogol.
- Gofynnwyd nifer o gwestiynau ynghylch y galw a ddaw am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer y Cynllun Amgen. Bydd y Cyngor yn paratoi ffurflen safonol ar gyfer atebion a nodyn esboniadol i gynorthwyo'r rhai sydd am gyflwyno safleoedd. Bydd y ffurflen yn gofyn am y wybodaeth allweddol sydd ei hangen at ddibenion arfarnu, wrth geisio osgoi gorgymhlethu neu gwestiynau diangen. Bydd y nodyn esboniadol yn cael ei gyhoeddi cyn y dyddiad dechrau ffurfiol ar gyfer sylwadau. Lle na ddatblygwyd tir a neilltuwyd yn y CDLl cyfredol, bydd y Cyngor yn ailgloriannu. Dylai perchenogion a datblygwyr safleoedd o'r fath ddefnyddio proses y Safleoedd Ymgeisiol i ailddatgan eu budd datblygu ac egluro pam na ddatblygwyd y safleoedd. Roedd rhai asiantau wedi nodi un ateb i anawsterau cyflawni trwy ymestyn safle – mewn achosion o'r fath, dylid esbonio sut allai hyn ddatrys cyfyngiadau ar gyflawni wrth gyflwyno Safle Ymgeisiol. Dylai estyniadau osgoi ymledu'n ormodol i gefn gwlad agored / ardaloedd lle byddai datblygu'n cael effeithiau sylweddol ar y dirwedd.
- Meddyliai rhai asiantau y dylid dychwelyd i baratoi Cynllun unigol ar gyfer Sir Benfro, ar y cyd ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae hwn yn bosibilrwydd hirdymor, fel y byddai cydgynlluniau gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y De-orllewin yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar y blaen gyda pharatoi ei CDLl Amgen, gan weithio i amserlen wahanol i'r Cyngor. Byddai Cydgynllun yn peri bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn colli amser sylweddol a gallai olygu na fyddai'r ddau awdurdod yn mabwysiadu eu Cynlluniau Amgen cyn i'w Cynlluniau cyfredol ddod i ben. Serch hynny, mae cydweithredu a gweithio ar y cyd ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn digwydd ble bynnag y bo modd a bydd hynny'n parhau.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

**Crynodeb**

6.1 Mae cynnydd pellach wedi'i wneud o ran cyflawni'r Cynllun yn 2016/17. Nid oes unrhyw faterion penodol i'w harchwilio mewn perthynas â phroses yr AoG/ARhC. Mae'r Cynllun bellach yn cael ei adolygu, er mwyn bodloni'r gofyniad i ddechrau gweithio ar CDLl newydd bedair blynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun presennol.

6.2 Ymhlith y meysydd allweddol i'r Adolygiad o'r CDLl eu hystyried mae Cyflenwi Tai, yn enwedig safleoedd strategol, Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, perfformiad Canol Trefi ac argymhellion Uwchgynllun cysylltiedig; hynt y gwaith o gyflenwi safle Cyflogaeth Strategol, darparu Tywod a Gro a chyd-destun ehangach deddfwriaeth newidiol.

6.3 Nid yw'r ffaith yr adolygir y CDLl yn golygu nad oes angen parhau i baratoi AMBau ar gyfer y Cynllun presennol. Bydd y rhain yn parhau nes i'r Cynllun newydd gael ei gyhoeddi. Felly, caiff AMB 5 ei gyhoeddi yn 2018, sy'n rhoi'r diweddaraf ar faterion yn deillio o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig, ac sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall a all effeithio ar weithredu CDLl y Cyngor.

# 7. Atodiadau

# Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLl

Data Ffynhonnell: Monitro Ceisiadau Cynllunio'n Gyflym oni nodir fel arall mewn troednodiadau.

Roedd nifer o Geisiadau Cynllunio a gymeradwywyd ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn aros am gytundebau 106, a phenderfynwyd arnynt o dan y Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd. Ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Nid yw nifer o Geisiadau Cynllunio a benderfynwyd yn gyffredinol gan yr Awdurdod wedi'u cynnwys yn yr AMB am eu bod yn amhriodol at ddibenion yr adroddiad hwn. Maent yn cynnwys:

AG – Hysbysiadau Amaethyddol

HG – Gwrychoedd

CA – Ardaloedd Cadwraeth

Pr Notf – Hysbysiadau Blaenorol

CLOPUD – Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon Arfaethedig

EIA – Asesiad Effaith Amgylcheddol

DC – Cyflawni Amodau

Diwygiadau Adran 73

Ceisiadau Amlinellol

TF – Cymynu Coed

LB – Adeiladau Rhestredig

AD – Hysbysebion

OHL – Llinellau Uwchben

CLD – Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon

HS – Sylweddau Peryglus

Diwygiadau ansylweddol i geisiadau

Diwygiadau Adran 73 ôl-weithredol

Ceisiadau Materion a Gedwir yn ôl

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | Canlyniad | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2014** | **2015** | **2016** | **2017** |
| Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt o dan y CDLl (heb gynnwys Trin Coed, Datblygiadau Amaethyddol, Adran 73 ac Adeiladau Rhestredig): | - | | Cyfanswm: 749<br>Cymeradwywyd: 665<br>Gwrthodwyd: 82 | Cyfanswm: 859<br>Cymeradwywyd: 785<br>Gwrthodwyd: 74 | Cyfanswm: 681<br>Cymeradwywyd: 614<br>Gwrthodwyd: 67[3] | Cyfanswm: 641<br>Cymeradwywyd: 589<br>Gwrthodwyd: 52 |
| **Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd (A)** | | | | | | |
| (Craidd) Faint o ddatblygiadau (yn ôl TAN 15 paragraff 5.1 categori datblygu) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 ac nad oedd fel arall yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.21 – v).* | Mae datblygiadau mewn parthau C1 ac C2 yn unol â darpariaethau TAN15. | Mae mwy nag 1 gymeradwyaeth o fewn blwyddyn ddatblygu mewn parthau C1 ac C2 yn groes i ddarpariaethau | 5 | 0 | 0 | 0 |

[3] O'r rhai a wrthodwyd penderfynwyd ar 1 drwy apêl, penderfynwyd ar 1 drwy Benderfyniad Terfynol yn hytrach na chael ei wrthod.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | TAN 15. | | | | |
| **Crynodeb o'r Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd (A):**<br>Ym mlwyddyn 4 yr AMB, mae pob cais parth llifogydd wedi bodloni gofynion TAN 15 / polisi CDLl GN.1 (maen prawf 7). Hon yw'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r fath ganlyniad gael ei gofnodi, sy'n adlewyrchu parhad arferion gwaith da gan Swyddogion Rheoli Datblygu.<br>Fel rheol, ymgynghorir â CNC ynghylch ceisiadau parthau llifogydd a chaiff argymhellion eu hadlewyrchu fel arfer yn y penderfyniadau a wneir.<br>Yn gyffredinol, caiff asesiadau clir o berygl llifogydd eu cynnwys mewn Adroddiadau Pwyllgorau Penderfyniadau Dirprwyedig a Chynllunio a Hawliau Tramwy lle bynnag y bydd ardal safle cais yn cyd-daro â pharth llifogydd C1 neu C2, gan gynnwys achosion lle mai dim ond cyfran fechan o safle'r cais yr effeithir arni. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I)** | | | | | | |
| Nifer a chyfran y caniatadau cynllunio tai ar lefelau gwahanol o'r hierarchaeth o aneddiadau. | Mae 60% o ganiatadau yn y Trefi Ffocws[4] | Caniatadau llai na 50% mewn Trefi Ffocws dros gyfnod o 3 blynedd (Noder: nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu) | Tref Ffocws<br>1,191 (77%) | Tref Ffocws<br>790 (65.3%) | Tref Ffocws<br>356 (39%) | Tref Ffocws<br>259 (37%) |
| | | | Tref Wledig<br>55 (3.5%) | Tref Wledig<br>31 (2.6%) | Tref Wledig<br>43 (5%) | Tref Wledig<br>27 (4%) |
| | | | Canolfan Wasanaeth<br>14 (0.9%) | Canolfan Wasanaeth<br>23 (1.9%) | Canolfan Wasanaeth<br>98 (11%) | Canolfan Wasanaeth<br>69 (10%) |
| | | | Pentref Gwasanaeth<br>165 (11%) | Pentref Gwasanaeth<br>303 (25%) | Pentref Gwasanaeth<br>329 (36%) | Pentref Gwasanaeth<br>279 (41%) |
| | | | Pentref Lleol Mawr<br>12 (0.8%) | Pentref Lleol Mawr<br>10 (0.8%) | Pentref Lleol Mawr<br>22 (2%) | Pentref Lleol Mawr<br>9 (1%) |
| | | | Pentref Lleol Bach | Pentref Lleol Bach | Pentref Lleol Bach | Pentref Lleol Bach |

[4] Mae 50% yn rhychwantu'r 3 blwyddyn adrodd ddiwethaf

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 15 (1%)<br>Cefn Gwlad Agored 95 (6%) | 15 (1.2%)<br>Cefn Gwlad Agored 38 (3.1%) | 10 (1%)<br>Cefn Gwlad Agored 64(7%) | 0 (0%)<br>Cefn Gwlad Agored 48 (7%) |
| Arwynebedd tir a ddiogelwyd ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a gollwyd oherwydd datblygiadau | 0% | Bydd yn rhaid ymchwilio i unrhyw golled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Newid net mewn cyfleusterau cymunedol a ddarperir o ganlyniad i ganiatâd cynllunio (arwynebedd a math). | Er mwyn cadw cyfleusterau allweddol | Colli dros 3 chyfleuster cymunedol o fewn unrhyw gyfnod penodol o 3 blynedd. | Cyfleusterau newydd a enillwyd:<br>Neuaddau Cymunedol: 0.39 hectar<br>Tafarndy: 1.35 hectar<br>Cyfleusterau iechyd: 1.30 hectar<br>Cyfleusterau addysg: 3.91 hectar<br>Man Agored/ardalo | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd:[6]<br>Neuaddau Cymunedol 0.11 hectar wedi'i ennill<br>0.03 wedi'i golli (13/1090/PA)<br>Tafarndy: 0.13 hectar wedi'i ennill<br>Iechyd: 0.04 hectar wedi'i | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd[7]<br>Tafarndai 0.09 hectar wedi'i golli (13/0772/PA 15/0853/PA)<br>Adeiladau crefyddol 0.53 hectar wedi'i golli (13/0878/PA 15/0232/PA, 15/0800/PA, 15/0322/PA). | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd<br>Neuaddau Cymunedol 0.97 hectar wedi'i ennill<br>Adeiladau crefyddol 0.05 hectar wedi'i golli (16/1006/PA 16/0525/PA)<br>Cyfleusterau addysg<br>1.11 hectar |

[6] Fel o'r blaen, lle mae cyfleuster cymunedol wedi newid o un fath i un arall nid ystyriwyd bod hyn yn golled. Mae cyfleusterau newydd yn cynnwys estyniadau i ardaloedd safle sy'n bodoli eisoes (ac nid estyniadau i adeiladau o fewn ardal safle sy'n bodoli eisoes) a newidiadau mewn defnydd.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | edd awyr agored 2.52 hectar<br>Arall: 0.15 hectar<br>Dim cyfleusterau wedi'u colli'n llwyr[5] | ennill<br>Cyfleusterau addysg: 0.63 hectar wedi'i ennill<br>0.06 hectar wedi'i golli (13/0963/PA)<br>Man Agored / Ardaloedd awyr agored: 0<br>Arall: 0.32 hectar wedi'i ennill<br>-0.17 wedi'i golli (14/0119/PA a 14/0704/PA)<br>Adeiladau crefyddol 0.90 hectar wedi'i ennill<br>-0.29 hectar wedi'i golli | Siop gyfleustra leol a enillwyd 0.01 hectar (15/0082/PA)<br>Chwaraeon a hamdden<br>0.88 hectar wedi'i ennill (15/0149/PA 0.16 hectar wedi'i golli (15/0715/PA<br>Colli caffis 0.02 hectar wedi'i golli (14/1059/PA15 /0308/PA)<br>Ennill addysgol 0.02 (14/1192/PA 0.26 hectar wedi'i golli (15/0584/P, 14/1098/PA. Roedd 11 o | wedi'i ennill<br>Man Agored/ardaloedd awyr agored<br>0.02 hectar wedi'i ennill<br>Chwaraeon a hamdden<br>0.28 hectar wedi'i ennill<br>Cyfleusterau iechyd: 0.31 hectar wedi'i ennill<br>0.80 hectar wedi'i golli (16/0028/PA dymchwel cartref gofal preswyl)<br>Dim ond yn achos 3 chais y collwyd rhai cyfleusterau |

[5] noder: lle mae cyfleuster cymunedol wedi newid o un fath i un arall nid ystyriwyd bod hyn yn golled

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (14/0318/PA 13/0909/PA)<br>6 chaniatâd lle newidiwyd defnydd o gyfleuster cymunedol. Fodd bynnag, ym mhob achos roedd y defnydd eisoes wedi dod i ben ac nid oedd yn hyfyw mwyach. | ganiatadau yn golygu colli rhai cyfleusterau cymunedol. Ym mhob achos rhoddwyd cyfiawnhad (gweler y sylwadau) | cymunedol. Ym mhob achos rhoddwyd cyfiawnhad. |
| Lefel gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig. | Nid yw gwasanaethau mewn aneddiadau yn yr hierarchaeth o aneddiadau yn sylweddol is nag yn Arolwg 2008 o Gyfleusterau | Monitro wrth Adolygu'r Cynllun (2017) – byddai 10% o newid yn nifer yr aneddiadau sy'n sicrhau gwasanaethau lefel pentref yn gofyn am ymchwiliad pellach. Ni chyrhaeddwyd y trothwy. Gweler y Diweddariad i Adroddiad Cyfleusterau Gwledig 2017. | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwledig | | | | | |
| (Craidd) Capasiti (MW) datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd. | Dim targed ond gall un gael ei bennu at ddibenion monitro'r CDLl, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir ym Mhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru | Dim trothwy wedi'i nodi. | 108.427MW o gapasiti a ganiatawyd rhwng 28.02.13 a 31.03.14.[7] (108.417 MW o gapasiti a ganiatawyd rhwng 01/04/13 a 31/03/14) | 68.60 MW o gapasiti a ganiatawyd.[8] | 34.77 MW o gapasiti a ganiatawyd[9]. | 6.11 MW o gapasiti a ganiatawyd[10]. |
| Faint o fan agored (m2) a ganiateir o gymharu â chyfanswm nifer yr anheddau a ganiateir. | Darparu man agored cyhoeddus ar | Darparu man agored cyhoeddus ar | Mae safonau gwahanol, yn seiliedig ar fathau gwahanol o fannau agored. Er hwylustod defnyddiwyd y safonau mannau chwarae anffurfiol. Mae'r rhain yn gofyn am 5.5m2 fesul person. Yn seiliedig ar gyfradd feddiannu gyfartalog o 2.2 berson mewn aelwyd | | | |

[7] Gan gynnwys apeliadau a ganiatawyd ar geisiadau y penderfynwyd arnynt yn gychwynnol yn y cyfnod hyd at 31.03.14.

[8] Gan gynnwys apeliadau a ganiatawyd ar geisiadau y penderfynwyd arnynt yn gychwynnol yn y cyfnod hyd at 31.03.15. Dim data allbwn ar gael ar gyfer cais 14/0640/PA.

[9] Nid yw hyn yn cynnwys 6 chais lle nad oedd unrhyw ddata allbwn ar gael – ym mhob achos roedd disgwyl i allbynnau fod yn fach.

[10] Nid yw hyn yn cynnwys 5 cais (pedwar ar gyfer paneli solar, un ar gyfer cynllun trydan dŵr) lle nad oedd unrhyw ddata allbwn ar gael – ym mhob achos roedd disgwyl i allbynnau fod yn fach.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfradd o fwy na 25% islaw gofyniad y safon (fel y'i nodwyd yn y Canllawiau Cyhoeddi Atodol) | gyfradd o fwy na 35% islaw gofyniad y safon (fel y'i nodwyd yn y Canllawiau Cyhoeddi Atodol) wrth adolygu'r Cynllun. | (a dybir yn CCA y Rhwymedigaethau Cynllunio), mae hyn yn cyfateb i ofyn am 12.1m2 fesul annedd man agored anffurfiol. Darparwyd 34469.82m2 (wedi'i rannu'n 4370 o anheddau), sy'n 7.8m2 fesul annedd. Mae hyn yn is na'r targed ac felly'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I):**

Mae nifer a chyfran y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd (lle bu ennill net o ran annedd), yn unol yn fras â strategaeth anheddu'r CDLl, ond roedd lleihad yn nifer yr unedau a ganiatawyd yn y Trefi Ffocws am yr ail dro er i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn golygu canran ychydig yn is na'r targed (37% yn lle 50% o ganiatadau mewn Trefi Ffocws). Cafodd cyfanswm o 691 o anheddau preswyl newydd eu cymeradwyo'n amodol yn ardal y Cynllun rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. O'r rhain, roedd 259 wedi'u lleoli mewn Trefi Ffocws, sy'n hafal i 39% o'r holl ganiatadau preswyl. Fodd bynnag, am y tro cyntaf ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu bu mwy o ganiatadau, 279 (41%) o ganiatadau yn y Pentrefi Gwasanaeth na'r trefi ffocws. Mewn mannau eraill roedd y canrannau yn unol â strategaeth y CDLl. Cafodd yr un ganran o ddatblygiadau ei chaniatáu yng Nghefn Gwlad sy'n adlewyrchu nifer o geisiadau am addasu anheddau, anheddau menter wledig a chynigion Datblygu Un Blaned, y mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r CDLl.

Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw arwynebedd tir a ddiogelwyd ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar gyfer math arall o ddatblygiad yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Mae sawl un o'r cynlluniau a ddiogelwyd bellach wedi'u hadeiladu, neu'n rhannol weithredol. Mae gan eraill ganiatâd cynllunio ond maent yn aros i gael eu hadeiladu, gyda rhai o'r rhain yn cael eu cyflwyno fel elfennau o gynlluniau adfywio sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnydd tir. Ar safle Blackbridge, ceir cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol nas pennwyd ar gyfer safle biomas, a bennir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru.

O ran cyfleusterau cymunedol, cafodd tri chais ganiatâd lle cafodd cyfleuster cymunedol ei golli'n llwyr neu'n rhannol. Roedd 2 cais yn golygu colli eglwysi neu gapeli segur. Yn yr achosion hyn nid oedd y defnydd crefyddol parhaus yn hyfyw mwyach a bu marchnata'n aflwyddiannus. (16/1006/PA a 16/0525/PA). Roedd a wnelo un cais â dymchwel hen gartref gofal preswyl a oedd wedi bod ar gau ers sawl blwyddyn a chodi tai preswyl gan gynnwys 6 annedd fforddiadwy ar gyfer tai rhent cymdeithasol. Nid yw ceisiadau eraill a oedd yn golygu newid defnydd rhwng cyfleusterau cymunedol neu lle y cafwyd darpariaeth amgen eisoes wedi'u cynnwys yma. (Er enghraifft disodli ac adleoli ardal chwarae i blant (16/0384/PA) ac addasu canolfan gymunedol bresennol a fflat i ffurfio canolfan gymunedol newydd ac 8 fflat (16/0863/PA). O ystyried y dangoswyd, ym mhob achos, nad oedd y cyfleuster cymunedol yn hyfyw, neu nad oedd ei angen mwyach, neu fod cyfleusterau cymunedol amgen ar gael yn lleol, nid oes angen ymchwiliad pellach ar gyfer y dangosydd hwn. Er i'r cyfleusterau cymunedol hyn gael eu colli, roedd y cynigion yn dderbyniol o fewn fframwaith polisi'r CDLl.

Caiff lefelau gwasanaethau o fewn aneddiadau eu monitro wrth adolygu'r Cynllun. Gweler y Diweddariad i Adroddiad Cyfleusterau Gwledig 2017.

Ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, yn ystod blwyddyn 4 yr AMB roedd a wnelo'r rhan fwyaf o benderfyniadau a wnaed â manylion y cynlluniau a gafodd ganiatâd yn flaenorol. O'r cynigion newydd, roedd pedwar penderfyniad apêl ynghylch cynigion tyrbinau gwynt a wrthodwyd yn wreiddiol mewn cyfnod AMB cynharach (caniatawyd tri, gwrthodwyd un), un ynghylch cynnig tyrbin gwynt newydd (gwrthodwyd), un ynghylch fferm solar (cymeradwywyd yn amodol), saith ynghylch gosod paneli / araeau PV solar (a gymeradwywyd yn amodol i gyd) ac un ynghylch cynllun trydan dŵr (cymeradwywyd yn amodol). Parhawyd i weld llai a llai o geisiadau am brosiectau ynni adnewyddadwy, gan adlewyrchu'r lleihad mewn tariffau cyflenwi. Adlewyrchir hyn hefyd yn allbynnau disgwyliedig cynlluniau sydd newydd gael caniatâd, a oedd ond yn 6.11 MW yn unig ym mlwyddyn 4 yr AMB, sy'n lleihad mawr o gymharu â'r ychydig flynyddoedd diwethaf.

O ran Mannau Agored, dim ond ar 12 Medi 2016 cafodd CCA Rhwymedigaethau Cynllunio yn cyflwyno safonau eu mabwysiadu, ac felly nid ydynt wedi cael digon o amser i ddod i rym. Nid yw'r dangosydd monitro yn glir am nad yw'n dadansoddi gofynion gwahanol mathau gwahanol o fannau agored a dylid ystyried hyn mewn AMBau yn y dyfodol. Mae hefyd yn gofyn am gymharu faint o fannau agored (m2) a ganiateir o ran y nifer gyffredinol o anheddau a ganiateir, lle mewn gwirionedd dim ond ar safleoedd â mwy na 33 o anheddau y mae angen mannau agored. Yn yr Adolygiad o'r CDLl, dylai'r dangosydd hwn gael ei ailystyried, er mwyn darparu data mwy ystyrlon.

<table>
<tr><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td colspan="7">Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd (E)</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd o fewn ardaloedd porthladdoedd a nodwyd (Blackbridge, Aberdaugleddau, Wdig, hen safle ffatri Dewhirst a Pharrog Wdig).</td><td rowspan="3">100% erbyn diwedd cynllun y Cynllun</td><td rowspan="3">50% heb ganiatâd cynllunio ar adeg adolygu'r Cynllun (2017). Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at ei gyflawni.</td><td>Blackbridge<br>0</td><td>Blackbridge<br>0</td><td>Blackbridge<br>0</td><td>Blackbridge<br>0 – ond gan nodi bod cais DAC ar gyfer safle biomas heb ei bennu</td></tr>
<tr><td>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0</td><td>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0</td><td>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0</td><td>Hen safle ffatri Dewhirst<br>0</td></tr>
<tr><td>Parrog Wdig<br>0</td><td>Parrog Wdig<br>0</td><td>Parrog Wdig<br>0</td><td>Parrog Wdig<br>0</td></tr>
<tr><td>Cynnydd tuag at ddarparu'r cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd.</td><td>Caiff pob un ei ddarparu erbyn 2021</td><td colspan="4">Os na fydd cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn adeg yr Adolygiad o'r Cynllun (2017).<br>Gweler Atodiad 2 am fanylion hynt cyflawni cynlluniau wedi'u diogelu a restrir o dan Bolisi GN.39. Amlygir newidiadau ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae rhai o'r cynlluniau a ddiogelwyd bellach yn cael eu cyflawni, gydag eraill yn yr arfaeth. Hefyd, mae rhai cynlluniau newydd wedi'u cyflwyno ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, tra bod y gwaith o gyflawni cynlluniau eraill a gafodd gyllid wrth fabwysiadu'r CDLl yn llai sicr bellach. Mae'r broses o adolygu'r CDLl yn gyfle i ddiweddau manylion y cynllun er mwyn adlewyrchu amgylchiadau presennol.</td></tr>
<tr><td colspan="7">Crynodeb o'r Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau ynni a datblygiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd (E):<br>Nid oes gan y safle cyflogaeth strategol yn Blackbridge ganiatâd cynllunio cyfredol sy'n ymwneud â chyflogaeth. Erbyn hyn cwmni datblygu Egnedol sy'n berchen ar y safle, ac mae'n cynnig cyfleuster biomas ynghyd â nifer o brosiectau cysylltiedig ar gyfer y safle dynodedig a</td></tr>
</table>

rhannau sylweddol o dir y tu hwnt iddo. Mae'r cynnig hwn wedi cyrraedd y cam gwneud cais ac fe'i dosbarthwyd yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Felly, fe'i pennir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru.

Nid yw'r naill safle na'r llall yn Wdig wedi denu cais cynllunio sy'n ymwneud â chyflogaeth ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ond ceir cais preswyl cymeradwy ar ran o hen safle ffatri Dewhirst.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau ar safleoedd cyflogaeth strategol.

Mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd ac adolygir y dyraniadau hyn ar y cyd â pharatoi CDLl 2.

Parheir i wneud cynnydd cymharol dda tuag at ddarparu cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd. Cofnododd AMBau cynharach gynnydd tuag at ddarparu'r cynlluniau amrywiol a ddiogelwyd gan y CDLl. Yn ystod blwyddyn 4 yr AMB roedd prif elfennau'r cynnydd a wnaed fel a ganlyn:

- Cwblhawyd y rhan fwyaf o elfennau Llwybr Strategol y De erbyn diwedd 2016/17. Mae ffordd gyswllt a chylchfan newydd yn Maidenwells wedi cyrraedd y cam gweithredu, gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Tachwedd 2016 (roedd yr elfen hon o'r cynllun bron â'i chwblhau yn ystod haf 2017, yn ystod blwyddyn 5 yr AMB).
- Nawr disgwylir cwblhau Canolbwynt Bysiau Abergwaun erbyn mis Ebrill 2019. Mae arian gan Lywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn bosibl cwblhau gwaith dylunio manwl a datblygu cam cychwynnol prosiect Gwella Mynediad i Ganol Tref Abergwaun.
- Hefyd yn Abergwaun, dechreuodd prosiect Heol Fawr yr A40 i'r Wesh yr A487 (Chimneys Link) ym mis Ebrill 2016, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2019. Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Mae gwaith dylunio manwl a cham cychwynnol prosiect Gwella Mynediad i Ganol Tref Abergwaun wrthi'n mynd rhagddynt.
- Cafwyd Grant Cronfa Drafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18, fel bod modd datblygu rhannau o gynnig Llwybr Cyd-ddefnyddio Hwlffordd i Arberth. Yn benodol, mae'r rhan o'r llwybr hwn rhwng Eagle Lodge a Phentref Gwyliau Bluestone yn cael ei gweithredu, gan gynnwys adeiladu maes parcio newydd yn Eagle Lodge, yn amodol ar gwblhau prosesau statudol. Yn fwy cyffredinol, bydd SUSTRANS yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o lwybr Arberth i Hwlffordd, fel rhan o brosiect wedi'i ariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gyda'r gwaith cychwynnol yn dechrau yn ystod 2016/17.
- Mae cynigion Uwchgynllun Hwlffordd wedi'u haddasu a datblygwyd rhai elfennau pellach yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Caiff Cylchfan Sgwâr Bridgend ei ailfarcio yn 2017/18, er mwyn gwella llif traffig. Bydd prosiect mynediad a gwella Canol y Dref (Sgwâr Swan) yn dechrau ar ôl cwblhau cynllun newydd y Llyfrgell. Elfen newydd o'r cynigion yw astudiaeth ddichonoldeb ar wella maes parcio aml-lawr

<table>
<tr><td colspan="7">Hwlffordd a gwella mynediad i'r Orsaf Fysiau. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith o ailddatblygu canol y dref a wneir yn 2017/18.<br>• Datblygir llwybr cyd-ddefnyddio gogledd-orllewinol i mewn i Hwlffordd. Nid yw'r cynllun hwn wedi ei ddiogelu gan y CDLl ond mae bellach wedi ei gynnwys yn y cynlluniau a gaiff eu monitro (gweler Atodiad 2). Mae dwy elfen yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, sef Pelcomb Bridge i Pelcomb Cross a Simpson Cross i'r Garn. Cwblhawyd y gwaith dylunio cychwynnol yn 2016/17 a chafwyd Grant Cronfa Drafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18, fel bod modd adeiladu llwybrau cyd-ddefnyddio.<br>• Cynnig arall ar gyfer llwybr cyd-ddefnyddio nas diogelir gan y CDLl yw'r un sy'n cysylltu Doc Penfro a Milton, yn dilyn yr A.477. Mae cryn dipyn o'r llwybr hwn eisoes wedi'i gwblhau. Disgwylir i elfennau olaf y cynllun hwn gael eu gorffen gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru yn 2017/18.<br>Rhydd Atodiad 2 fwy o fanylion am gynnydd tuag at gyflawni cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelir gan y CDLl (a hefyd am gynlluniau arwyddocaol eraill a gyflwynwyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu). Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro cynnydd o ran darparu'r cynlluniau a diogelwyd.</td></tr>
<tr><td colspan="7">Amcan Strategol: Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn ardal y Ddau Gleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G)</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau SP 4, SP 14, GN.12, GN.14</td><td rowspan="4">0</td><td rowspan="4">Mwy na 4 cais cynllunio wedi'u cymeradwyo'n groes i un polisi dros 4 blynedd.</td><td>SP 4<br>0</td><td>SP 4<br>0</td><td>SP 4<br>0</td><td>SP 4<br>0</td></tr>
<tr><td>SP 14<br>0</td><td>SP 14<br>0</td><td>SP 14<br>0</td><td>SP 14<br>0</td></tr>
<tr><td>GN.12<br>0</td><td>GN.12<br>0</td><td>GN.12<br>0</td><td>GN.12<br>2[11]</td></tr>
<tr><td>GN.14<br>0</td><td>GN.14<br>0</td><td>GN.14<br>0</td><td>GN.14<br>0</td></tr>
</table>

[11] 15/1103/PA newid defnydd o Siop Flodau (A1) i Gaffi (A3) yn ôl-weithredol a 16/0751/PA Newid defnydd o lawr daear rhannol o fanwerthu (A1) i ganolfan dreftadaeth leol (D1) yn ôl-weithredol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (Craidd) Faint o'r holl ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiateir yng nghanol Trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. (TAN 4)* | 100% (nid yw'r ffigur yn cynnwys cynlluniau sy'n safle a neilltuwyd y tu allan i ganol trefi) | 90% o'r targed | 0% = 7052.6[12]metr sgwâr a ganiateir y tu allan i ganol trefi (gweler ceisiadau 12/0829/PA, 12/0989/PA a 12/1112/PA). | Roedd 29% = 1472 metr sgwâr wedi'i leoli o fewn Canol Trefi a nodwyd o gyfanswm o 5124 metr sgwâr a ganiatawyd. (Gweler 13/0971/PA, 14/0247/PA a 14/0724/PA) | Caniatawyd 0% = 1254 metr sgwâr (net) y tu allan i ganol trefi. (Gweler cais 15/0570/PA).<br>Dim cynigion manwerthu mawr o fewn canol trefi | 0% = 2,120 m sg (net) wedi'i ganiatáu y tu allan i ganol trefi (cais 16/0582/PA [amlinellol] a 16/0376/PA) |
| Lefel yr arwynebedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN. 15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm). | 0% | Naratif ar unrhyw gynlluniau nas caniateir o dan Bolisi GN.15 neu GN.10. | 96% = 6,174.9 metr sgwâr[13] (Ceisiadau 12/0829/PA a 12/0989/PA). Ceir naratif cryno isod. | 71% = 3,688 metr sgwâr. (Ceisiadau 13/0971/PA, 14/0247/PA a 14/0276/PA). Ceir naratif isod. | 100% = 1,254 metr sgwâr (Gweler cais 15/0570/PA). Gweler y naratif isod. | 100% = 2,120 m sg (net) (cais 16/0582/PA [amlinellol] a 16/0376/PA) naratif isod |
| Cynnydd tuag at sicrhau'r | 100% erbyn | Unrhyw ddyraniadau nad ydynt wedi cael caniatâd cynllunio erbyn yr Adolygiad o'r | | | | |

[12]Mae'r ffigur yn cyfeirio at yr holl arwynebedd dosbarth A net (A1, A2 ac A3) ond nid yw'n cynnwys arwynebedd nad yw'n arwynebedd dosbarth A. Mae'r ffigur ond yn cynnwys ceisiadau mawr.

[13]Arwynebedd yw arwynebedd A1 net a ganiateir y tu allan i ganol trefi fel canran o gyfanswm arwynebedd A1.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| dyraniadau manwerthu. | diwedd cynllun y Cynllun. | Cynllun (2017). Dechreuodd y gwaith o adolygu'r Cynllun ar 5 Mai 2017.<br>RT/040/01 Safle Fred Rees, Hwlffordd – cais wedi'i gyflwyno, aros am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd<br>RT/096/01 Canolfan St Govan – heb gyflwyno cais, safle manwerthu presennol<br>RT/034/01 Hen Safle Ysgol Gynradd, Abergwaun – Cynllun ailddatblygu Chimney's Link, gan gynnwys datblygiad manwerthu yn yr arfaeth<br>RT/088/01 Hen Safle Ysgol Gynradd, Arberth – caniatâd cynllunio wedi'i roi, heb ei weithredu<br>RT/050/01 Dyraniad siop fwyd Kingsmoor – Caniatâd wedi darfod.<br>Comisiynodd yr Awdurdod Astudiaeth Fanwerthu Ranbarthol ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion sydd wedi darparu tystiolaeth wedi'i diweddaru o'r angen i ddyrannu ar gyfer datblygiad manwerthu wrth adolygu'r cynllun. | | | | |
| Newid ym mhresenoldeb defnyddiau A1 (nifer yr unedau a'u harwynebedd) mewn ffryntiadau manwerthu cynradd. | Mae o leiaf 66% o'r ffryntiad llinol yn ddosbarth defnydd A1 o fewn ffryntiadau cynradd | Llai na'r targed | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol:<br>Abergwaun<br>Arberth<br>Penfro<br>Doc Penfro | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol:<br>Abergwaun<br>Hwlffordd<br>Arberth<br>Penfro | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol:<br>Arberth<br>Penfro<br>Abergwaun | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol:<br>Arberth<br>Penfro<br>Abergwaun |
| Canran yr unedau gwag llawr daear yng Nghanol pob Tref (o fewn ffin y CDLl a nodwyd).[14] | Nid yw lefelau unedau gwag | Mae lefelau unedau gwag 5% yn uwch | Y DU<br>13.9%<br>(Ffynhonnell: Cwmni Data | Y DU<br>13.2%<br>(Ffynhonnell: Cwmni Data | Y DU<br>12.5%<br>(Ffynhonnell: Cwmni Data | Y DU<br>12.7%<br>(Ffynhonnell Cwmni data |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) | na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU). | Lleol, Rhagfyr 2013) | Lleol Rhagfyr 2014) | Lleol, Rhagfyr 2016)[15] | lleol, Rhagfyr 2016) |
| | | | Hwlffordd 9% | Hwlffordd 17% | Hwlffordd 18% | Hwlffordd 25% (16%)[16] |
| | | | Doc Penfro 10% | Doc Penfro 15% | Doc Penfro 19% | Doc Penfro 22% |
| | | | Aberdaugleddau 14% | Aberdaugleddau 21% | Aberdaugleddau 18% | Aberdaugleddau 20% |
| | | | Penfro 9% | Penfro 6% | Penfro 7% | Penfro 12% |
| | | | Abergwaun 10% | Abergwaun 9% | Abergwaun 16% | Abergwaun 15% |
| | | | Arberth 4% | Arberth 2% | Arberth 2% | Arberth 6% |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi sir Benfro, yn enwedig o fewn Ardal y Ddau Gleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G):**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi un dangosydd craidd ar gyfer CDLlau fel faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir yng nghanol trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. Mae CSP wedi dehongli hwn i gwmpasu dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3. Yn ystod cyfnod yr AMB roedd 0% o holl arwynebedd datblygiadau A1, A2 ac A3 mawr a ganiatawyd

[15] Mae'r CDLl yn nodi bod y gyfradd unedau gwag genedlaethol is wedi'i hysgogi gan leihad yn nifer yr unedau sy'n dod yn wag a'r ffaith bod nifer yr unedau sy'n cael eu tynnu'n ôl o'r stoc gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd.

[16] Cyfraddau unedau gwag uwch am fod gwaith ailddatblygu yn mynd rhagddo yng nghanol y dref

wedi'i leoli yng Nghanol Trefi neu ar safle manwerthu a neilltuwyd. Caniatawyd un cais manwerthu mawr yn ystod cyfnod AMB 4.

Gan mai un cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi, mae'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach mewn perthynas â'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Yn achos y cais am ddatblygiad mawr a ganiatawyd, y manylion oedd:

Cais 16/0376/PA i ailddatblygu siop fwyd bresennol Lidl er mwyn cynyddu'r GIA 1,276 m sg, gan greu arwynebedd llawr masnachu ychwanegol o 544 msg. Bodlonodd y cais feini prawf GN.14 a'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol gan ddangos angen ansoddol am y cynnig a'r prawf cymalog ar safle presennol ar gyrion canol y dref.

I gloi, roedd y cais yn bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a pholisïau'r CDLl. Nid yw'r cais hwn yn nodi unrhyw broblem benodol gyda pholisïau'r CDLl ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd.

O ran y dangosydd pellach ynglŷn â lefel arwynebedd datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu G.10 Siôp Fferm, mae CSP wedi ystyried pob un o'r ceisiadau hynny am ddatblygiad mawr a arweiniodd at ennill net o ran arwynebedd dosbarth defnydd A1, y caniatawyd 100% ohonynt y tu allan i ganol trefi. . Yn ogystal â'r cais uchod (16/0376/PA), cafodd cynnig am siop nwyddau swmpus ar London Road, Doc Penfro (cais 16/0582/PA amlinellol) ganiatâd cynllunio. Mae'r ceisiadau hyn yn cyfrif am 100% o gyfanswm yr arwynebedd dosbarth defnydd A1 a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi (ac eithrio'r cynlluniau hynny a gymeradwywyd o dan GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 Siopau Fferm). Nodir y rheswm dros y caniatâd am ddatblygiad mawr a roddwyd ar safle Lidl uchod, roedd y siop nwyddau swmpus yn bodloni profion o angen, effaith a chymalog ac er i'r trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach gael ei gyrraedd, nid ystyrir bod angen ymchwiliad pellach.

Mae lefelau unedau gwag uwchlaw lefelau cenedlaethol yn Hwlffordd, Doc Penfro ac Aberdaugleddau ac am y tro cyntaf Abergwaun. Mae gan Aberdaugleddau a Doc Penfro gyfradd unedau gwag sydd dros 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae cynllun ailddatblygu yng nghanol tref Hwlffordd wedi creu cynnydd byrdymor mewn lefelau unedau gwag. Ystyriwyd natur dros dro yr uned wag a phan fydd yn cael ei defnyddio, ni fydd 5% uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol cyfredol.

O ran ffryntiadau manwerthu cynradd – mae gan Abergwaun, Arberth a Phenfro grynodiad o unedau A1 sy'n islaw canran y targed. Mae gan Arberth a Phenfro rôl twristiaeth sy'n cefnogi darparu defnyddiau A3. Mae Abergwaun hefyd yn ehangu ei photensial o ran twristiaeth. Bwriedir parhau i fonitro hyn.

Mae llawer o Ganol Trefi ledled y DU yn wynebu problemau ar hyn, sy'n adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'r Cyngor a nifer o sefydliadau eraill yn datblygu amrywiaeth o gamau gweithredu i gynorthwyo yn hyn o beth. Cynhaliodd Pwyllgor Trosolwg a

Chraffu Economaidd y Cyngor adolygiad manwl o ganol trefi yn 2012/13 ac roedd ei argymhellion yn cefnogi creu chwe Thîm Tref ledled y Sir. Mae'r Timau Tref hyn wedi datblygu cynlluniau gweithredu i nodi ymyriadau a all gael eu rhoi ar waith gyda phartneriaid. Ym mis Ebrill 2015 cytunodd y Cabinet i adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed gan y Timau Tref a datblygu cyfres o uwchgynlluniau. Mae prosiect cyntaf uwchgynllun Hwlffordd (Awst 2016) i adleoli a datblygu llyfrgell i'r 21ain Ganrif, oriel a chanolfan ymwelwyr yn adeilad presennol y farchnad yng nghanol Hwlffordd wedi dechrau. Nododd Uwchgynllun Hwlffordd weledigaeth a phrosiectau blaenllaw ar gyfer canol tref Hwlffordd gan fanteisio ar y coridor afon, gan gynnwys ailddatblygu'r Farchnad sydd ar waith, canolfan siopa Eastern Quayside a darparu Canolfan Dreftadaeth. Caiff astudiaethau uwchgynlluniau canol trefi eraill eu datblygu maes o law.

Yn Aberdaugleddau, cynigiodd Awdurdod y Porthladd gynllun defnydd cymysg ar gyfer marina sy'n cynnwys defnyddiau manwerthu masnachol a physgota yn ogystal â 160 o anheddau preswyl, a hyd at 70 o angorfeydd ychwanegol yn y marina. Argymhellodd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2015, ond nid yw'r cytundeb A.106 wedi'i lofnodi eto.

Mae Doc Penfro hefyd wedi cael arian Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant eiddo masnachol a gefnogir gan arian yr UE. Mae Aberdaugleddau a Phenfro wedi cael budd o Gynllun Benthyciadau Canol Tref, a ariennir o dan Fenter 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' Llywodraeth Cymru a rhydd fenthyciadau di-log er mwyn helpu i leihau nifer y safleoedd ac eiddo sy'n wag ac nas defnyddir digon. Roedd angen i brosiectau ddechrau cyn mis Medi 2016.

Yn ogystal â mentrau adfywio, yn 2014/2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Rhyddhad Manwerthu (a weinyddir gan y Cyngor) a gynigiodd gyfraniad ariannol o hyd at £1k tuag at ardrethi busnes ar gyfer eiddo manwerthu a feddiennir sydd â gwerth ardrethadwy o £50k neu lai yn y flwyddyn ariannol 2014/2015. Cafodd yr un cynllun ei estyn i 2015-16 (hyd at 31 Mawrth 2016) gyda chynnydd yn y budd mwyaf i £1500 a'r nod oedd cynorthwyo manwerthwyr, busnesau bwyd a diod llai o faint. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr yn parhau ym mis Rhagfyr 2016. Bwriedir gweithredu'r Cynllun o 1 Ebrill 2017 gan ei wneud yn barhaol o 2018 a bydd yn dilyn yr adolygiad o ardrethi busnes yn 2017.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro dangosyddion manwerthu yn fanwl a bydd yn gweithio gyda chydweithwyr Adfywio i gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r uwchgynlluniau.

**Amcan Strategol: Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd yn seiliedig ar ymdeimlad cryf o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol (H)**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau SP5, GN.16 a GN.17, GN.18 a GN.19 (gan gynnwys mewn apeliadau). | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i bolisïau | Mwy na 4 cymeradwyaeth mewn 4 blynedd | SP 5<br>0 | SP 5<br>0 | SP 5<br>0 | SP 5<br>0 |
| | | | GN.16<br>0 | GN.16<br>0 | GN.16<br>0 | GN.16<br>0 |
| | | | GN.17<br>0 | GN.17<br>0 | GN.17<br>0 | GN.17<br>0 |
| | | | GN.18<br>0 | GN.18<br>0 | GN.18<br>0 | GN.18<br>0 |
| | | | GN.19<br>0 | GN.19<br>0 | GN.19<br>0 | GN.19<br>0 |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Datblygu economi ymwelwyr o safon yn seiliedig ar ymdeimlad unigryw o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol (H)**

Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod monitro a oedd yn groes i'r Polisïau ynglŷn â Thwristiaeth.

Edrychodd rhanddeiliaid ar ddrafftiau AMB blaenorol a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys crynodeb o gynilion sy'n cael caniatâd o dan bolisïau Twristiaeth yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar y dangosyddion hynny a nodwyd yn yr AMB. Nodir y crynodeb hwn isod.

Cymeradwywyd cyfanswm o 25 o geisiadau ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro (gostyngiad bach o gymharu â'r 30 o geisiadau a gymeradwywyd yn ystod cyfnod 3 yr AMB). Roedd y cymeradwyaethau hyn yn cynnwys y caniatadau canlynol ar gyfer llety twristiaeth:

Cafodd cyfanswm o 3 newid defnydd i sefydlu llety gwely a brecwast eu caniatáu, roedd 1 cais yn ymwneud â'r newid defnydd (16/0064/PA) ac roedd 2 gais (16/0752/PA a 16/0952/PA) yn ymwneud â throsi i unedau gwyliau.

O ran datblygu carafannau – caniatawyd 7 cais i ddisodli ac uwchraddio parciau carafannau a chyfleusterau gwersylla gan gynnwys ymestyn safleoedd. Roedd y rhain yn cynnwys 1 cais i adleoli ac uwchraddio 4 carafan statig i 8 caban gwyliau pren (16/0922/PA). 1 cais i uwchraddio cyfleusterau gwersylla i gynnwys iyrtau (16/0013/PA) ac ehangu safle Pine Lodge, Cosheston (16/0475/PA). Roedd 2 o'r rhain yn

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| estyniadau i flociau toiledau. Gwnaeth 1 cais ganiatáu cynyddu nifer y lleiniau ar gyfer carafannau teithiol o 15 i 22.<br><br>Hefyd rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd yn ymwneud â chyfleusterau twristiaeth presennol gan gynnwys ymestyn cyfleusterau a chorlan anifeiliaid newydd (16/0015/PA) yn Folly Farm. Rhoddwyd caniatâd i adeiladu parc ceblau tonfyrddio â 4 tŵr â cheblau, gan gynnwys llyn, clwb a maes parcio – (15/0771/PA). Mae'r amrywiaeth o ganiatadau twristiaeth a roddwyd ochr yn ochr â'r dystiolaeth o gydymffurfiaeth â pholisïau yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun yn caniatáu i amrywiaeth o ddatblygiadau twristiaeth priodol fynd rhagddynt o dan strategaeth y CDLl. | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol (C)** | | | | | | |
| (Craidd) Tir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu (hectar/milltir sgwâr).<br><br>Tir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer swyddfeydd (hectar/milltir sgwâr)<br><br>Tir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer diwydiant a warysau (hectar/milltir sgwâr). | 100 hectar wedi'i ddatblygu erbyn 2021 | Llai na 45 hectar wedi'i ddatblygu erbyn 2017. | 1,154.11 hectar wedi'i ddatblygu erbyn 2013[17]<br><br>Mae'r ffigurau wedi'u his-rannu fel a ganlyn:<br><br>13.20 hectar wedi'i ddatblygu ar gyfer swyddfeydd<br><br>1,140.91 hectar wedi'i ddatblygu ar gyfer diwydiant / warysau | 218,287 metr sgwâr (21.8 hectar) ychwanegol wedi'i ddatblygu o ganiatadau a roddwyd ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu (2013-2015)[18]. | Cyflwynwyd methodoleg newydd ar gyfer gwaith yr arolwg o safleoedd cyflogaeth yn 2015. Caiff dyraniadau cyflogaeth a defnydd cymysg ynghyd â'r safleoedd cyflogaeth allweddol sy'n bodoli eisoes a'r hap-safleoedd dros 0.5 hectar a ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu eu monitro.<br><br>Cyfanswm arwynebedd safleoedd llinell sylfaen 2013:1137 | Cyfanswm arwynebedd safle sylfaenol 2013: 1137 hectar (11,373,700 metr sgwâr).<br><br>Cyfanswm arwynebedd safleoedd 2016: 1195 hectar (11,953,357 metr sgwâr).<br><br>Arwynebedd safleoedd a ddefnyddir 2013: 945 hectar (9,448,700 ms).<br><br>Arwynebedd safleoedd a ddefnyddir 2016: 976 |

[17]Yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael a chan adlewyrchu newidiadau i ddyraniadau rhwng y Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd a'r Cynllun Datblygu Lleol a hefyd y dirywiad economaidd dros y cyfnod hwn.

[18] Yn seiliedig ar Arolwg Tir Cyflogaeth CSP 2015.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hectar (11,373,700 metr sgwâr).<br>Cyfanswm arwynebedd safleoedd 2015: 1146 hectar (11,451,982 ms).<br>Arwynebedd safleoedd a ddefnyddir 2013: 945 hectar (9,448,700 ms).<br>Arwynebedd safleoedd a ddefnyddir 2015: 829 hectar (8,294,777 ms).<br>Tir gwag 2013: 193 hectar (1,925,000 ms).<br>Tir gwag 2015: 316 hectar (3,167,205 ms).<br>Defnydd swyddfeydd: 0.08 hectar (758 metr sgwâr) defnydd A2 ynghyd â chyfran fach o'r 11.96 hectar (119,593 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B1.<br>Defnydd diwydiant a warysau: cyfran fawr o'r 11.96 hectar (119,593 metr | hectar (9,764,952 metr sgwâr).<br>Tir gwag 2013: 193 hectar (1,925,000 ms).<br>Tir gwag 2016: 219 hectar (2,188,405 metr sgwâr).<br>Defnydd swyddfeydd: 0.04 hectar (418 metr sgwâr) defnydd A2 ynghyd â chyfran fach o'r 3.94 hectar (39,362 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B1.<br>Defnydd diwydiant a warysau: cyfran sylweddol o'r 3.94 hectar (39,362 metr sgwâr) defnydd B1, ynghyd â 259 hectar (2,594,071 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B1 a 436 hectar (4,360,958 metr sgwâr) ar gyfer defnydd B8. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sgwâr) ar gyfer defnydd B1, ynghyd â 366.27 hectar (3,662,725 metr sgwâr)<br>Defnydd B2 a 159.53 hectar (1,599,310 metr sgwâr) defnydd B8. | |
| Arwynebedd tir a ganiateir ar safleoedd nas neilltuwyd (hectar / metr sgwâr). | 10% o gyfanswm y tir cyflogaeth a ganiatawyd. | 50% yn is na'r targed. | Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd 2013/14:<br>3,022.84 metr sgwâr B1<br>7,646.00 metr sgwâr B2<br>3,455.50 metr sgwâr B8<br>-76.34 metr sgwâr arall<br>Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd:<br>173,550.00 metr sgwâr B1<br>(dim B2, B8 nac arall)<br>Safleoedd nas neilltuwyd = 0.075% o'r cyfanswm (14,048 metr sgwâr / 187,598 metr | Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd 2014/15:<br>1,528,175.45 metr sgwâr<br>(14,899.25 metr sgwâr – B1<br>7,858 metr sgwâr – B2<br>727,239 metr sgwâr – B8<br>21,541 metr sgwâr – arall)<br>Cyfansymiau a ganiatawyd ar safleoedd nas neilltuwyd:<br>213,915.7 metr sgwâr<br>(7440 metr sgwâr B1<br>200779.7 metr sgwâr – B2<br>3430 metr sgwâr – | Cyfanswm yr arwynebedd a ganiatawyd ar gyfer defnydd cyflogaeth ar gyfer hap-safleoedd nas neilltuwyd o dan 0.5 hectar yn 2015/16: 3.86 hectar (38,600 metr sgwâr). | Cyfanswm yr arwynebedd a ganiatawyd ar gyfer defnydd cyflogaeth ar gyfer hap-safleoedd nas neilltuwyd o dan 0.5 hectar yn 2016/17: 2.80 hectar (28,000 metr sgwâr). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | sgwâr). | B8<br>21,541 metr sgwâr Arall)<br>Safleoedd nas neilltuwyd = 87.7% | | |
| Cynnydd tuag at ddarparu'r safleoedd cyflogaeth strategol:<br>a) Blackbridge<br>b) Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>c) Parc Busnes Llwynhelyg<br>d) Trecŵn | 75% wedi'u darparu erbyn 2021. | Datblygiadau na ddechreuwyd arnynt erbyn y dyddiadau canlynol:<br>a) Blackbridge (2018)<br>b) Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro (Mawrth 2017)<br>c) Parc Busnes Llwynhelyg (Mawrth 2017)<br>d) Trecŵn | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 – ond mae cais DAC ar gyfer safle biomas heb ei bennu |
| | | | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>0 | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>Caniatâd ar gyfer 2,065 metr sgwâr o adeiladau diwydiannol (defnydd B1) a roddwyd (14/0219/PA). | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>Caniatâd ar gyfer 2,065 metr sgwâr o adeilad diwydiannol (defnydd B1) a roddwyd (14/0219/PA, 15/0475/PA) – cwblhawyd yr adeilad yn ystod blwyddyn 3 yr AMB ac mae'n aros i gael ei feddiannau. | Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro<br>Nid oes caniatadau pellach ers y rhai a nodwyd ar gyfer blwyddyn 3 yr AMB. |
| | | | Parc Busnes Llwynhelyg<br>0 | Parc Busnes Llwynhelyg<br>Caniatâd ar gyfer 75 metr sgwâr o ddefnydd A1 ynghyd â 400 metr sgwâr o | Parc Busnes Llwynhelyg<br>Caniatâd ar gyfer 75 metr sgwâr o ddefnydd A1 ynghyd â 400 metr sgwâr o | Parc Busnes Llwynhelyg<br>Yn ystod blwyddyn 4 yr AMB rhoddwyd caniatâd amodol ar gyfer uned storio |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (Mawrth 2017) | | adeiladau o fan storio defnydd B8 a roddwyd (14/0509/PA).[19] | ddefnydd storio B8 – 14/0509/PA (a roddwyd yn ystod blwyddyn 2 yr AMB). Caniatâd hefyd ar gyfer uned storio B8 – 15/1237/PA, rhoddwyd yr olaf ar 21/04/16 (yn ystod blwyddyn 4 yr AMB o drwch blewyn). Mae cynnig nad yw'n gynnig cyflogaeth wedi cael caniatâd hefyd[15]. | ffrâm dur ar gyfer ffenestri UPVC a chanolfan ffitrwydd dan do. Gwrthodwyd cynnig pellach ar gyfer canolfan weithgareddau. Hefyd cafwyd cais i amrywio amodau a gymeradwywyd yn ymwneud â chydsyniad yr addoldy a gymeradwywyd yn flaenorol. |
| | | | Trecŵn<br>0 | Trecŵn<br>0 | Trecŵn<br>0<br>Rhoddwyd caniatâd ar gyfer gorsaf bŵer tanwydd coed i gynhyrchu ynni o fiomas, 14/04/15 – yn Nhrecŵn ond y tu allan i ardal y safle a neilltuwyd. | Trecŵn<br>0<br>Ni chafwyd cynigion pellach yn ystod blwyddyn 4 yr AMB. Ni weithredwyd cydsyniadau cynharach ar gyfer safle oriau brig sy'n defnyddio tanwydd diesel (yn yr ardal ddynodedig ond a gafodd ganiatâd cyn y CDLl) a gorsaf bŵer tanwydd coed (i greu ynni o fiomas) |

[19] Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth (ceisiadau 13/0034/PA – maes ymarfer golff, 13/0682/PA, 15/0263/NM, 15/0307/PA, 15/0463/DC, 15/1320/PA – addoldy a 14/0373/PA – ffens ddiogelwch a phorta-cabin ar gyfer caffi). Roedd dau gais heb eu penderfynu eto ar ddiwedd blwyddyn 3 yr AMB – 15/1084/PA ar gyfer canolfan cadw'n heini dan do a 16/0060/PA ar gyfer canolfan weithgarwch.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | eto. Felly, yn yr achos hwn, mae trothwy 2017 wedi'i gyrraedd. |
| Cynnydd tuag at ddarparu safleoedd defnydd cymysg:<br>a) Hwlffordd – Old Hakin Road<br>b) Iard Johnston Arnold<br>c) Dale Road, Hubberston | 66% wedi'u darparu erbyn 2021 | Nid yw safleoedd wedi cael caniatâd cynllunio erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae cais (i amrywio amodau caniatâd 2012) wedi dod i law[20]. | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Rhoddwyd caniatâd i estyn yr amser i ddechrau datblygiad defnydd cymysg (14/0151/PA). | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio eraill wedi dod i law ar y safle hwn. | Hwlffordd – Old Hakin Road<br>0<br>Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio eraill wedi dod i law ar y safle hwn. |
| | | | Iard Johnston Arnold<br>0 | Iard Johnston Arnold<br>0 | Iard Johnston Arnold<br>0 | Iard Johnston Arnold<br>0<br>(cyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach) |
| | | | Dale Road Hubberston | Dale Road Hubberston | Dale Road Hubberston | Dale Road Hubberston<br>0 |

[20] 14/0151/PA, a gymeradwywyd ar 1 Awst 2014 (yn ystod blwyddyn 2 yr AMB).

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 0 | 0 | 0 | (cyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach) |
| (Craidd) Faint o agregau cynradd a dynnir o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y'i nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. | Cynnal y banciau tir craig galed a thywod a gro tra bo'r Cynllun ar waith (tan 2021) ac am 10 mlynedd (craig galed) a 7 mlynedd (tywod a gro) ar ôl i'r Cynllun ddod i ben | Bydd angen ymchwiliad pellach os bydd y banc tir yn gollwng i 12 mlynedd (craig galed) neu 9 mlynedd (tywod a gro), er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun. Monitro tunelli a ganiateir. | Gweler Nodyn Mwynau 1 o AMB 1 (2013/14). | Trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd ar gyfer tywod a gro. Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn yn AMB 2 y CDLl. | Trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd ar gyfer tywod a gro. Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn yn AMB 3. | Trothwy ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd ar gyfer tywod a gro. Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcan hwn isod. |
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i Bolisi GN.22. ***(Noder bod hwn yn ddangosydd diwygiedig fel y'i cynigiwyd gan AMB 1,*** | 0 | Mwy na 4 cymeradwyaeth mewn 4 | Gweler Nodyn Mwynau 2 o AMB 1 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***paragraff 3.17).*** | | blynedd | (2013/14).<br>Roedd 189 o geisiadau a gymeradwywyd rhwng 28/02/13 a 31/03/14 y tu allan i Ffin Anheddiad ac o fewn yr ardal diogelu mwynau. O'r rhain:<br>Ar gyfer 71, dylai polisi GN.22 fod wedi bod yn ystyriaeth fwy na thebyg[21].<br>Ar gyfer 100, roedd polisi GN.22 yn annhebygol o | | | |

[21]O'r 71 o geisiadau lle y dylai GN.22 fod wedi bod yn ystyriaeth, fwy na thebyg, dim ond mewn 2 benderfyniad yr ystyriwyd y mater. Ym mhob achos, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen cloddio blaenorol. Nid yw hyn yn awgrymu, yn y 69 o achosion eraill, y byddai wedi bod yn ofynnol o reidrwydd, ond dylai fod wedi cael ei ystyried. Ymdriniwyd â hyn ar gyfer y dyfodol drwy gyhoeddi Nodyn Canllawiau Arfer Da ar gymhwyso polisi GN.22 (Mawrth 2014).

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | fod yn ystyriaeth sylweddol.<br>Roedd 14 yn hysbysiadau amaethyddol.<br>Roedd 4 yn hysbysiadau ymlaen llaw. | | | |
| Cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiad i ddod o hyd i leoliadau amgen ar gyfer cynhyrchu mwynau mewn lleoliadau nad ydynt yn y Parc Cenedlaethol yn sir Benfro a / neu'n rhywle arall yn ne-orllewin Cymru. | Trafodaethau rhanbarthol i ailddechrau erbyn 2014<br>a chynnydd sylweddol tuag at nodi cronfeydd mwynau newydd yn y Sir a/neu ranbarth de-orllewin Cymru wedi'i ddangos erbyn 2018 | Heb gyrraedd y trothwy, ond naratif i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa | Gweler Nodyn Mwynau 3 o AMB 1 (2013/14). | Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcanhwn yn AMB 2 (2014/15) | Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcanhwn yn AMB 3). | Gweler y testun cryno ar gyfer yr Amcanhwn yn AMB 4). |
| Mae Arolwg Cyflogaeth 2016 yn cyflwyno gwybodaeth am dir ac adeiladau cyflogaeth ar ddyraniadau cyflogaeth a defnydd cymysg y CDLl, ar y | | | | | | |

prif safleoedd diwydiannol sy'n bodoli eisoes ac ar hap-safleoedd a ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Cyflwynir elfennau allweddol o ganlyniadau 2016 uchod. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Arolwg Cyflogaeth 2016, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

Bu rhywfaint o gynnydd tuag at ddarparu'r safleoedd cyflogaeth strategol. Y targed ar gyfer 2021 yw cyflawni 75% ac mae trothwyon ar gyfer ymchwiliad pellach os na fu unrhyw ddatblygiad yn Blackbridge erbyn 2018 a'r tri safle arall erbyn mis Mawrth 2017. Gan gyfeirio at yr olaf o'r rhain, ni ddechreuwyd unrhyw waith datblygu yn Nhrecŵn ac felly cyrhaeddwyd y trothwy yn ystod AMB 4. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau ar y safleoedd hyn.

Yn Blackbridge, gwnaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro werthu eu daliadau tir yn yr ardal hon i'r cwmni datblygu Egnedol yn ddiweddar. Mae Egnedol wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer safle biomas (a chynigion datblygu cysylltiedig eraill) ar y safle strategol a thir ychwanegol y tu hwnt i'r ardal ddynodedig. Mae hwn yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac felly caiff y cais ei bennu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r tir dynodedig yn Blackbridge a pheth tir pellach y tu hwnt i'w ffin ym Mharth Menter Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Ym Mharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, dechreuodd y datblygiad sawl blwyddyn yn ôl drwy adeiladu Canolfan Arloesi'r Bont. Yn fwy diweddar, mae adeilad diwydiannol dosbarth B1 ffrâm dur, y nodwyd iddo gael caniatâd yn AMB 2, wedi'i gwblhau ac yn aros i rywun ddechrau ei ddefnyddio. Mae'r safle hwn hefyd o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

Mae rhai rhannau o safle Parc Busnes Llwynhelyg eisoes wedi'u datblygu. Mae seilwaith ffordd hefyd ar waith a fydd yn gwasanaethu rhannau o'r safle nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn. Mae'r safle hwn o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Yn ystod blwyddyn 4 yr AMB rhoddwyd caniatâd amodol ar gyfer uned storio ffrâm dur ar gyfer ffenestri UPVC a chanolfan ffitrwydd dan do. Gwrthodwyd cynnig pellach ar gyfer canolfan weithgareddau. Hefyd cafwyd cais i amrywio amodau a gymeradwywyd yn ymwneud â chydsyniad yr addoldy a gymeradwywyd yn flaenorol.

Yn Nhrecŵn, erys adeiladau a seilwaith sy'n ymwneud â defnyddiau milwrol blaenorol. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio newydd yn ystod cyfnod yr AMB diwethaf ond rhoddwyd caniatâd o fewn yr ardal ddynodedig am safle oriau brig sy'n defnyddio tanwydd diesel yn 2012 (cyn mabwysiadu CDLl) a'r tu allan i'r ardal ddynodedig (ond yn nyffryn Trecŵn) am orsaf ynni sy'n llosgi pren, yn gynnar yng nghyfnod AMB 3. Ni weithredwyd yr un cynnig. Mae'r trothwy monitro ar gyfer y safle hwn wedi'i gyrraedd ar gyfer AMB 4. Caiff hyn ei ystyried wrth adolygu'r CDLl.

Ar y tri dyraniad defnydd cymysg, y targed yw darparu 66% erbyn 2021, gyda throthwy o 2017 ar gyfer ymchwiliad pellach i'r safleoedd nad oes

ganddynt ganiatâd cynllunio erbyn y dyddiad hwnnw.

Yn Old Hakin Road, Merlins Bridge, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn gyntaf yn 2004. Ers hynny bu sawl cais i adnewyddu, cymeradwyo materion a gedwir yn ôl ac addasu, y cymeradwywyd yr un mwyaf diweddar ar 01/08/14.

Yn Iard Arnold, Johnston, nid oes unrhyw geisiadau cynllunio diweddar ac mae defnyddiau hanesyddol wedi dod i ben. Felly, cyrhaeddwyd y trothwy monitro ar gyfer AMB 4 ac ystyrir hyn wrth adolygu'r CDLl.

Nid yw'r safle cymysg yn Dale Road, Hubberston, Aberdaugleddau, wedi cael ei ddatblygu eto ac nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Felly, mae'r trothwy monitro hefyd wedi'i gyrraedd ar gyfer AMB 4, a ystyrir wrth adolygu'r CDLl.

O ran mwynau, mae'r banc tir yn ne-orllewin Cymru ar gyfer safleoedd cynhyrchu craig galed y tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn sylweddol. Felly nid yw'r ffaith y daw cynhyrchiant y Parc Cenedlaethol i ben yn y pen draw yn debygol o fod yn broblem, gan fod opsiynau amgen y tu hwnt i ffin y Parc. Fodd bynnag, mae'r banc tir ar gyfer tywod a gro yn llai sylweddol a bydd angen nodi safleoedd cynhyrchu daearol newydd.

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau ar gyfer Gogledd Cymru a De Cymru, Adolygiad 1af, yn annog cydweithredu rhwng y pedwar Awdurdod er mwyn dod o hyd i safleoedd tywod a gro tiriogaethol newydd. Yn benodol, bydd hyn yn canolbwyntio ar ddod o hyd i safleoedd cynhyrchu mwynau amgen yn lle'r rhai ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Ni chaiff y cronfeydd wrth gefn o fwynau yn y Parc Cenedlaethol eu disbyddu am sawl blwyddyn. Er bod digon o ffynonellau amgen o graig galed yn Sir Benfro unwaith y rhoddir y gorau i gynhyrchu ar safleoedd y Parc Cenedlaethol, mae'r sefyllfa yn llawer llai sicr i safleoedd tywod a gro tiriogaethol yn y dyfodol. Mae'n cymryd cryn dipyn o amser i gyflwyno safleoedd newydd ac felly mae angen nodi safleoedd tywod a gro newydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a ystyrir ar sail ranbarthol (yn ardal hen Sir Dyfed i bob diben), ar fyrder.

Mae Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Cynllunio Lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion cynllunio mwynau sy'n codi ledled de-orllewin Cymru. Hysbyswyd gweithredwyr mwynau bod angen dod o hyd i safleoedd cynhyrchu tywod a gro newydd yn ne-orllewin Cymru.

Mae canllawiau arfer da wedi cael eu paratoi er mwyn rhoi cyngor ymarferol ar ystyriaethau wrth werthuso rhinweddau ceisiadau cynllunio yn yr ardal a ddiogelwyd. Dynoda gwaith monitro AMBau 2, 3 a 4 na chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i ddarpariaethau GN.22.

**Amcan Strategol: Datblygu cymunedau bywiog sy'n darparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gwasanaethau lleol (D) (Gweler**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **hefyd ddangosyddion ar gyfer Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol)** | | | | | | |
| (Craidd) Y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai (TAN 1) | O leiaf pum mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai | Cyflenwad llai na 5.5 blynedd | 4.9 blynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2012-2013 | 5.3 blynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2013-2014.<br>Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-2015 yn cael ei hystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu arni. | 5.0 mlynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014-2015. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 wrthi'n cael ei pharatoi. | 5.1 mlynedd a nodwyd gan y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015-2016. Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 wrthi'n cael ei llunio. |
| Nifer yr anheddau sy'n cael eu cwblhau a'u neilltuo y flwyddyn. | Cyfartaledd o 500 o anheddau newydd wedi'u cwblhau y flwyddyn | 10% yn is na'r targed. | 459 (Arolwg Tai 2013-2014) | 588 (Arolwg Tai 2014-2015). | 405 (Arolwg Tai 2015-2016) | 365 (Arolwg Tai 2016-2017). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | dros y cyfnod cyntaf o bedair blynedd<br>Cyfartaledd o 640 o anheddau newydd wedi'u cwblhau y flwyddyn dros y blynyddoedd sy'n weddill | | | | | |
| (Craidd) Faint o ddatblygiadau tai a ganiateir ac a adeiledir ar safleoedd tai a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y dyraniad tai ac fel canran o gyfanswm y datblygiad tai a ganiatawyd. | Dylai 80% o ddyraniadau gael eu cwblhau erbyn 2021. Fel cyfanswm o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir, dylai o leiaf 60% fod ar | Dylai 30% o'r dyraniadau gael caniatâd erbyn mis Mawrth 2017. Ymchwiliad os bydd caniatadau ar safleoedd a neilltuwyd islaw 60% o'r cyfanswm | Cafodd 67% o ddyraniadau ganiatâd a chafodd 25% o ddyraniadau eu hadeiladu fel canran o gyfanswm y tai a ddyrannwyd erbyn mis Mawrth 2017. Felly nid oes angen ymchwiliad pellach.<br><br>Cafodd 67% o ddyraniadau ganiatâd fel canran o gyfanswm y tai a ddyrannwyd erbyn mis Mawrth 2017. Cafodd 59% o ddyraniadau eu hadeiladu fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | safleoedd a neilltuwyd. | | | | | |
| Cynnydd tuag at ddarparu ar y safleoedd tai canlynol:<br>a) Slade Lane South, Hwlffordd<br>b) Slade Lane North, Hwlffordd<br>c) Maesgwyn, Abergwaun<br>d) Shoals Hook Lane | Dylai pob safle ddarparu unedau a nodwyd ac a ddisgwyliwyd yn y Cynllun erbyn 2021. | Datblygiadau na ddechreuwyd arnynt erbyn y dyddiadau canlynol:<br>a) Slade Lane South, Hwlffordd – 2017<br>b) Slade Lane North, Hwlffordd – 2020<br>c) Maesgwyn, Abergwaun – Mawrth 2017<br>d) Shoals Hook Lane – Mawrth 2017. | Slade Lane South<br>Caniatâd cynllunio ar waith (amlinellol) 12/0830/PA ar gyfer 729 eiddo preswyl, ac Archfarchnad a Gorsaf Betrol yn Slade Lane South a Slade Lane North. | Slade Lane South<br>Mae'r caniatâd dal i fod ar waith. Mae sylwadau'r asiant ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014 yn nodi bwriad i weithredu seilwaith hwyluso i gyflwyno'r safle mor fuan â phosibl, bydd y gwaith yn dechrau yn ystod Chwarter 4 2014 yn ôl yr amserlen, ac yn debygol o gael ei gwblhau yn | Slade Lane South<br>Mae'r caniatâd dal i fod ar waith. Mae sylwadau'r asiant ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 yn nodi bwriad i adeiladu gyda phartner adeiladwyr tai priodol gyda dyddiad dechrau amcangyfrifedig o Chwarter 2 2017.<br>Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y safle ac mae'r holl | Slade Lane South<br>Mae'r caniatâd dal i fod ar waith. Cymeradwywyd Adran 73 ar 23/01/17 (16/0858/PA) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl ar elfen breswyl y cynnig. Dynoda sylwadau asiant ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 ddyddiad dechrau amcangyfrifedi |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2014. Bydd Slade Lane South ar gael i'w ddatblygu erbyn Chwarter 1 2016. | seilwaith gweithredu ar waith. | g o Ch2 2018. |
| | | | Slade Lane North<br>Fel Uchod | Slade Lane North<br>Fel Uchod | Slade Lane North<br>Fel Uchod | Slade Lane North<br>Fel Uchod |
| | | | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith – 07/1454/PA (amlinellol) – preswyl a 08/0829/PA (Materion a Gedwir yn ôl) – preswyl. | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith 07/1454/PA (amlinellol) yn dod i ben 16/10/016. Cais Adran 73 14/0070/PA heb ei benderfynu ar ddyddiad llinell sylfaen yr AMB. | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith 07/1454/PA (amlinellol), yn dod i ben 16/10/2016. Cais Adran 73 14/0070/PA heb ei benderfynu ar ddyddiad llinell sylfaen yr AMB. | Maesgwyn<br>Caniatâd cynllunio ar waith 07/1454/PA (amlinellol), cais Adran 73 (14/0070/PA) ymestyn yr amser, dyddiad penderfynu 19/08/2016. Llofnodwyd adran 106 ar 4 Awst 2016. |
| | | | Shoals Hook Lane | Shoals Hook Lane | Shoals Hook Lane | Shoals Hook Lane |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dim caniatâd | Dim caniatâd | Dim caniatâd | Dim caniatâd. |
| Targed canran y Tai Fforddiadwy yn GN.27 | Bydd y targed yn adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Pe bai prisiau tai cyfartalog yn cynyddu 5% uwchlaw pris sylfaenol lefelau 2012 dros ddau chwarter, yna bydd yr Awdurdod yn ystyried trothwyon eraill a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy a gall gynnal profion hyfywedd ychwanegol ac addasu'r targedau a bennwyd yn GN.27 a GN.28. | Y pris sylfaenol mis Medi – mis Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros ddau chwarter drwy fonitro (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, Mehefin 2014) | Y pris sylfaenol mis Medi – mis Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros ddau chwarter drwy fonitro (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, Mehefin 2015) | Y pris sylfaenol mis Medi – mis Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros ddau chwarter drwy fonitro (gweler Mynegai Fforddiadwyedd y CDLl, Medi 2016). | Pris Sylfaenol Medi = Rhagfyr 2012 oedd £155,000. Dim cynnydd o 5% dros 2 chwarter drwy fonitro (gweler mynegai Fforddiadwyedd CDLl Rhagfyr 2016). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (Craidd) Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd (TAN 2) | 5,700 o anheddau erbyn 2021 gan gynnwys 980 o anheddau fforddiadwy erbyn 2021 | Os yw cyfanswm nifer yr anheddau a adeiladwyd erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017) yn llai na 50% o'r targed. | 459 (Arolwg Tai 2013-2014) | 588 (Arolwg Tai 2014-2015). | 405 (Arolwg Tai 2015-2016) | 365 (Arolwg Tai 2016-2017). |
| Cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio. | 980 erbyn 2021 | Os yw'n llai na 50% o'r targed erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | 323 | 265 | 125 | 190<br>Dim angen ymchwiliad pellach (cyfanswm o 903) |
| Nifer y tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio drwy rwymedigaethau cynllunio. | 476 erbyn 2021 | Os yw'n llai na 50% o'r targed erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | 232 gyda chyfraniadau o £395,207.25 ar gytundebau adran 106 a lofnodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. (Mae hyn yn | 220 gyda chyfraniadau o £2,244,805.25 ar gytundebau adran 106 a lofnodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. (Mae hyn yn | 74 | 141 gyda chyfraniadau o £714,793.85 ar gytundebau adran 106 a lofnodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.<br>(cyfanswm o |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynnwys 182 o Dai Fforddiadwy i'w darparu ar Slade Lane, Hwlffordd.) | cynnwys £1.28 miliwn o gyfraniad oddi wrth Farina Abergwaun.) | | 667 dros 4 blynedd, heb gyrraedd y trothwy). |
| Nifer y tai fforddiadwy a ganiateir fel safleoedd eithriedig. | 40 erbyn 2021 | Os yw llai nag 20 erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | 47 [22](3 o geisiadau a ganiatawyd 12/0850/PA ar gyfer dwy uned yn y Garn, 12/0882/PA yn Scleddau ar gyfer 27 o unedau a 12/0977/PA yn Saundersfoot (y tu allan i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir | 0 | 10 (1 cais a ganiatawyd 14/0921/PA) yn St Florence. | 64 (5 cais wedi cael caniatâd 15/0464/PA yn Johnston ar gyfer 26 o unedau, 15/1066/PA yn St Florence ar gyfer 10 o unedau, 15/1012/PA yn Square & Compass ar gyfer 6 uned, 15/1052/PA yn Llandysilio ar gyfer 6 uned a 15/0166/PA |

[22] Noder nad yw'r ffigur yn cynnwys ceisiadau ar gyfer materion a gedwir yn ôl.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Benfro) ar gyfer 18 o unedau). Cafodd pob uned a ganiatawyd ar safleoedd eithriedig yn ystod y cyfnod hwn ei darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, felly mae'r niferoedd hefyd wedi'u cynnwys yn y ffigurau isod ynglŷn â nifer y tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer ac a ddarparwyd gan Landlordiaid | | | yng Nghlunderwen ar gyfer 16 o unedau.)<br><br>(121 o unedau wedi cael caniatâd gan yr Adolygiad o'r Cynllun. Dim angen ymchwiliad pellach). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymdeithasol Cofrestredig) | | | |
| Nifer y tai fforddiadwy a ganiateir ac a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 401 erbyn 2021 | Ymchwiliad os yw'n llai na 200 erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). | Rhoddwyd 88 o ganiatadau i PHA a Tai Cantref (heb gynnwys Materion a Gedwir yn ôl). | 40 o ganiatadau (heb gynnwys Materion a Gedwir yn ôl). | Rhoddwyd 43 o ganiatadau i PHA a Tai Cantref (heb gynnwys Materion a Gedwir yn ôl)[23] | 123 o unedau a gafodd ganiatâd wedi'u rhoi i PHA.<br>(294 o unedau wedi cael caniatâd gan yr Adolygiad o'r Cynllun. Dim angen ymchwiliad pellach). |
| Nifer yr anheddau i weithwyr gwledig a gafodd ganiatâd cynllunio | 40 erbyn 2021 | 50% o'r targed. | 3 | 5 | 4 | 1<br>Dim angen ymchwiliad pellach. |
| Arwydd o lefel gyffredinol yr Angen am Dai Fforddiadwy. | Dim cynnydd sylweddol yn flynyddol. | Mae lefel yr angen yn amrywio dros 10% o | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn | Angen 1,641 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn |

[23] Mae'r ffigur o 43 yn cynnwys 10 o unedau a ganiatawyd fel safle eithriedig yn St Florence. Nid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig oedd yr ymgeisydd a'r asiant ar gyfer y cais hwn ond mae'r cynllun yn cael ei ddarparu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac felly mae wedi'i gynnwys.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gymharu â lefel 2012 fel y'i mesurwyd gan y Gofrestr Dai Gyffredin. | (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). (Noder mai 1,656 y flwyddyn oedd ffigur yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.) | (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). | (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). | (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014). |
| Nifer yr anheddau fforddiadwy sydd â chaniatâd cynllunio a nifer yr anheddau a adeiladwyd fel canran o'r holl dai newydd â chaniatâd cynllunio ac a adeiladwyd. | 98 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn a ganiatawyd; rhaid i dai fforddiadwy fod o leiaf 15% o'r cyfanswm a ganiateir ac a gwblheir. | Ymchwiliad pellach os yw tai fforddiadwy yn llai na 12.5% o gyfanswm y caniatadau. | Cafodd 323 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 1,547 o dai newydd a ganiatawyd (20%). 73 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd 2013-2014[24], | Cafodd 265 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 1,210 o dai newydd a ganiatawyd (21.9%). 117 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd 2014-2015[26], | Cafodd 119 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 922 o dai newydd a ganiatawyd (12.9%). 131 o unedau fforddiadwy a adeiladwyd 2015-2016 , | cafodd 190 ganiatâd cynllunio allan o gyfanswm o 691 o dai newydd a ganiatawyd (27.5%). 82 o unedau fforddiadwy wedi'u hadeiladu |

[24]Ffynhonnell Ffurflen Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru CSP

[26] Ffynhonnell Ffurflen Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru CSP

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | allan o gyfanswm o 459 a adeiladwyd[25] (15.9%). | allan o gyfanswm o 588 a adeiladwyd[27] (19.8%). | allan o gyfanswm o 405 a adeiladwyd (32%). | 2016-2017, allan o gyfanswm o 365 a adeiladwyd (22%).<br>Dim angen ymchwiliad pellach. |
| Cyfran y datblygiadau tai sy'n cyfrannu'r tai fforddiadwy a geisir gan yr awdurdod. | 75% o ddatblygiadau i gyflawni neu ragori ar y gyfradd gyfrannu; 95% o ddatblygiadau i gyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd at dai fforddiadwy. | 10% ar dargedau. | Cyfrannodd 86.2% o gynigion tai Dai Fforddiadwy. (50 allan o 58 o geisiadau lle y gellid bod wedi ceisio cyfraniadau Tai Fforddiadwy.) | 89.1% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (57 allan o 54 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf). | 90% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (54 allan o 60 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf). | 89.4% o gynigion tai wedi darparu cyfraniadau Tai Fforddiadwy (42 allan o 47 o geisiadau lle gellid bod wedi ceisio cyfraniadau TFf).[28] |

[25] Arolwg Tai CSP 2013-2014

[27] Arolwg Tai CSP 2014-2015

[28] 3 yn darparu unedau tai fforddiadwy yn unig.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
